ELANLINKS
Pobl · Natur · Dŵr
People · Nature · Water

Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

heritage treftadaeth
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

# PECYN ADNODDAU ADDYSGOL ELAN LINKS



# CYFLWYNIAD

## CWM ELAN



Mae Cwm Elan yn cynnwys 70 milltir sgwâr o argaeau, cronfeydd dŵr a thirweddau garw Cymreig. Mae'r argaeau'n ardal hyfryd i ymwelwyr trwy gydol y flwyddyn ac mae gan gerddwyr fynediad at 80 milltir o lwybrau sy'n rhoi iddynt hawliau tramwy dynodedig. P'un ai'n chwilio am dro hamddenol neu heic heriol ar fryniau, mae yna lawer o lwybrau cerdded a llwybrau golygfaol sy'n darparu ar gyfer pawb.

Adeiladwyd argaeau, cronfeydd dŵr a thraphont ddŵr 73 milltir o hyd yng Nghwm Elan gan mlynedd yn ôl, er mwyn cyflenwi dŵr glân i Birmingham – lle'r oedd angen dirfawr amdano. Roedd yr adeiladu yn gamp beirianneg sifil aruthrol o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Heddiw, mae'r argaeau a'r cronfeydd dŵr yn darparu amwynder parhaol yn eu rhinwedd eu hunain i ymwelwyr ei fwynhau, yn ogystal â diogelu cynefinoedd naturiol nifer o rywogaethau fflora a ffawna.

Mae'r 70 milltir sgwâr o weundiroedd, corsydd, coetiroedd, afonydd a chronfeydd dŵr yn bwysig yn genedlaethol am eu hamrywiaeth o blanhigion is (mwsoglau, llys yr afu a chennau). Yr Ystâd yw'r lle pwysica yng Nghymru am adar y tir.

Mae'r rhan fwyaf o Ystâd Elan yn dod o dan 12 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar wahân. O fewn yr Ystâd, mae Gwarchodfa Natur Genedlaethol Claerwen, sef 800 hectar o lwyfandir yr uwchdir gyda bryniau mwyn â glaswelltiroedd asid ac mewn mannau, corgorsydd ar fentyll o fawn. Mae pori ar yr Ystâd wedi lleihau er mwyn gwarchod rhywogaethau megis migwyn, cors rhosmari, gweunydd llydanddail a grug. Mae'r uwchdir llwm hwn yn cynnal tir cenhedlu neu fwydo ar gyfer adar prin megis y pibydd y mawn a chornicyll y mynydd.

Dyfarnwyd Gwobr Awyr Dywyll Ryngwladol i'r Ystâd ac mae'n gyfoethog o ran bywyd gwyllt y nos sy'n ffynnu o dan yr awyr dywyll iawn.

Mae hanes hir ac amrywiol i Gwm Elan. 4,000 o flynyddoedd yn ôl gwnaeth pobl Oes y Cerrig eu cartrefi yn y fforestydd derw, bedw a chyll. Ymhlith y rhai a gyrhaeddodd yn ddiweddarach, roedd y Celtiaid a'r Rhufeiniaid. Hefyd, mae adnoddau Elan wedi denu mwyngloddio am gopr, plwm a sinc drwy'r oesoedd ac mae olion y mwyngloddiau hyn i'w gweld hyd heddiw.

Yn ystod y ddau Ryfel Byd, defnyddiwyd Cwm Elan gan Fyddin Prydain ar gyfer profi arfau ac offer rhyfel. Ym 1942, cynhaliwyd profion cyfrinachol gan y Weinyddiaeth Ryfel yn ymwneud â Barnes Wallis. Arweiniodd y treialon hyn a threialon cyfrinachol eraill at berffeithio'r bom 'bownsio'. Mae rhai olion o'r argae a ddefnyddiwyd ar gyfer y treialon hyn i'w gweld hyd heddiw yn Nant y Gro.

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

## PAM DATBLYGU GWEITHGAREDDAU AR GYFER CWM ELAN?

Fel y disgrifiwyd yn gynharach, mae cyfoeth o harddwch naturiol a threftadaeth yng Nghwm Elan. Boed yn greu'r argaeau a'r cronfeydd dŵr y gellir ymweld â hwy heddiw, ffermio mynydd, byd natur neu bobl, mae'r dreftadaeth helaeth yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr ac mae adnoddau fel hyn yn chwarae rhan yn y gwaith o'i hyrwyddo a'i diogelu.

Trwy addysgu ein plant, a'u teuluoedd, rydym yn gobeithio helpu i warchod y cynefin trwy ddatblygu parch at ein tirwedd fel y gellir ei warchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Nod y gweithgareddau dosbarth hyn yw hysbysu dysgwyr mor bwysig yw parchu Cwm Elan a chyflwyno'r cynefin a'i hanes iddynt.



## SUT MAE'R GWEITHGAREDDAU YN CYD-FYND Â'R CWRICWLWM?

Mae'r gweithgareddau wedi'u cynllunio i gyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru a'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn Lloegr. Ar y cyfan, maent yn ymdrin ag ystod o feysydd pwnc ac mae pob gweithgaredd yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr gymhwyso, gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o ystod o bynciau a meysydd pwnc.

Maent wedi'u hysgrifennu i ganolbwyntio ar ddysgwyr ym Mlynyddoedd 6 a 7. Byddai hyn yn galluogi ysgolion i ddefnyddio'r pecyn yn y cyfnodau cynradd ac uwchradd, neu hyd yn oed fel gweithgareddau pontio wrth i ddysgwyr symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Mae'r gweithgareddau'n canolbwyntio ar wella sgiliau dysgwyr o ran datrys problemau, meddwl yn feirniadol, cydweithio, cyfathrebu, meddwl yn greadigol ac ymchwilio. Maent yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr fod yn fetawybyddol ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, gan wreiddio eu sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn drawsgwricwlaidd. Mae'r dull hwn yn galluogi dysgwyr i gyflawni pedwar diben Cwricwlwm i Gymru ac mae'n cefnogi nodau'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn Lloegr.

Nod y gweithgareddau yw ysgogi chwilfrydedd dysgwyr, fel y byddant yn ymgysylltu'n well ac felly'n cael eu hysgogi'n well i lwyddo. Maent yn seiliedig ar gwestiynu, oherwydd dyma'r grym sydd y tu ôl i wella meddwl dysgwyr ar lefel uwch, ac mae cwestiynau o ansawdd uchel yn arwain at siarad o ansawdd uchel. Felly, mae'r holl weithgareddau wedi'u cynllunio o amgylch cyfres o dasgau gyda chwestiynau ffocws awgrymedig i arwain dysgwyr drwy'r dasg. Gan fod cydweithio effeithiol yn allweddol i ddatblygu meddylwyr lefel uwch, mae'n ofynnol fod parau neu grwpiau bach o ddysgwyr yn cydweithio er mwyn trafod ac ateb y cwestiynau a ofynnir o fewn y gweithgareddau.

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

# TROSOLWG O'R GWEITHGAREDDAU

### 1. Sut gallwn ni wneud taith gerdded yn ddiddorol?


NODIADAU ATHRAWON

ACTIVITY 1: SUT GALLWN NI WNEUD TAITH GERDDED YN DDIDDOROL?

Mae dysgwyr yn gwylio clip fideo mud o Gwm Elan ac yn ystyried pam y gallai cerddwyr gael eu denu i'r ardal. Maen nhw'n dewis trac sain yn gefndir i'r fideo ac yn cyfiawnhau eu dewis. Mae dysgwyr yn ystyried y rôl y mae cerdded yn ei chwarae yn eu bywydau a pha nodweddion lleol sy'n werth eu nodi wrth gerdded yn yr ardal leol. Maent yn archwilio sut mae gwahanol deithiau cerdded yn cael eu portreadu ar wefan Cwm Elan ac yn defnyddio hyn fel sail i greu taith gerdded sy'n seiliedig ar eu hardal leol. Mae dysgwyr yn cyflwyno eu teithiau cerdded i gynulleidfa a allai gynnwys grwpiau cerdded lleol ac yn derbyn adborth ar eu syniadau.

### 2. Beth allwn ni ei ddarganfod am ddŵr yn ein cartrefi?

Mae dysgwyr yn archwilio ym mhle mae dŵr yn mynd i mewn ac yn gadael eu cartref a sut mae'n gwneud hyn, ac yn ystyried o ble mae'r dŵr hwn yn dod ac i ble mae'n mynd wedyn. Maen nhw'n cael eu hannog i chwilio am dystiolaeth i gefnogi eu syniadau, ystyried beth maen nhw'n ei wybod am y gylchred ddŵr a gwneud ymchwil i ddarganfod mwy o wybodaeth. Mae dysgwyr yn datblygu meini prawf llwyddiant ar gyfer gwneud cyflwyniad da, gan weithio ar y cyd i greu cyflwyniad o'u dewis sy'n para am un munud, gan ei gyflwyno i'r dosbarth. Maent yn derbyn adborth gan gymheiriaid ac yn myfyrio ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu am y gylchred ddŵr a gwneud cyflwyniadau.

### 3. O ble mae fy nŵr yn dod ac i ble mae'n mynd?

Yng Ngweithgaredd 2, ystyriodd y dysgwyr o ble mae'r dŵr sy'n cael ei ddefnyddio yn eu cartref yn dod ac i ble mae'n mynd ar ôl iddo adael eu cartref. Archwiliwyd hyn yn gyffredinol, gan ystyried y 'darlun mawr' yn unig, ac roedd yn cynnwys dysgwyr yn darganfod mwy am y gylchred ddŵr a sut mae hyn yn gysylltiedig â'r dŵr sy'n mynd i mewn i'w cartref ac yn gadael eu cartref. Yn y gweithgaredd hwn, cymerir agwedd mwy penodol, gan annog dysgwyr i ddarganfod ffynhonnell y dŵr sy'n cyflenwi eu cartref, sut mae'n cyrraedd eu cartref a ble mae'r dŵr yn cael ei drin ar ôl iddo adael eu cartref.

### 4. Pam fod cael mynediad at ddŵr glân yn bwysig?


NODIADAU ATHRAWON

GWEITHGAREDD 4: PAM FOD CAEL MYNEDIAD AT DDŴR GLÂN YN BWYSIG?

Mae dysgwyr yn ystyried beth yw problemau mwyaf y byd ac yn archwilio 17 Nod Datblygu Cynaliadwy (NDC) y Cenhedloedd Unedig. Maent yn gosod y Nodau Datblygu Cynaliadwy yn nhrefn pwysigrwydd ac yn cyfiawnhau eu syniadau. Mae dysgwyr yn edrych yn agosach ar NDC 6 – Dŵr glân a glanweithdra. Maent yn ystyried sut beth fyddai bywyd pe na byddai dŵr glân ar gael iddynt, yn rhannu syniadau am glip fideo ac yn datblygu cynllun i ddangos sut y gallent wneud dŵr mwdlyd yn lanach.

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

Mae dysgwyr yn dilyn eu cynllun ac yn gwerthuso pa mor llwyddiannus oedden nhw. Yna, maen nhw'n myfyrio ar yr hyn y maen nhw wedi'i ddysgu ac yn creu fideo 30 eiliad o hyd am bwysigrwydd dŵr glân. Yn olaf, mae dysgwyr yn ystyried yr effaith a gafodd dŵr glân ar y tlawd yn Birmingham, ar ôl iddynt gael dŵr o Gwm Elan, gan dynnu llun stribed cartŵn i ddangos eu syniadau.

### 5. Sut mae creu cronfeydd dŵr?

Mae dysgwyr yn ystyried beth yw cronfeydd dŵr a sut a pham y cânt eu ffurfio. Maent yn cymharu delweddau o gronfeydd dŵr yn fyd-eang, gan ymchwilio i un o'u dewis ac yna'n darganfod sut a pham y caiff cronfeydd dŵr eu creu, gan rannu eu canfyddiadau. Mae dysgwyr yn defnyddio mapiau ar-lein i ystyried pam a sut y cafodd cronfeydd dŵr Cwm Elan eu hadeiladu ac archwilio tystiolaeth am y 'Dyffrynoedd Coll'. Maent yn ystyried adeiladu Cwm Elan o safbwyntiau gwahanol randdeiliaid ac yn dadlau eu hachos yn unol â hynny. Mae'r dysgwyr yn cyrchu map stori sy'n amlinellu 'treftadaeth suddedig' Cwm Elan ac yn dilyn gwneud gwaith ymchwil, maent yn creu map stori sy'n dangos sut mae eu hardal leol wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf. Yn olaf, mae dysgwyr yn ystyried a yw cronfeydd dŵr yn dal i gael eu hadeiladu heddiw ac a yw'r un materion a safbwyntiau yn berthnasol o hyd o ran eu hadeiladu.




### 6. Pam ei bod yn bwysig peidio â gwastraffu dŵr?

Mae dysgwyr yn ystyried rhesymau dros arbed dŵr ac yn penderfynu pa un sydd bwysicaf yn eu barn nhw. Maent yn amcangyfrif ac yn mesur metr ciwbig, yn coladu gwahanol weithgareddau sy'n defnyddio dŵr gartref, gan archwilio sawl gwaith y gellir gwneud pob gweithgaredd i ddefnyddio un metr ciwbig o ddŵr. Gan ddefnyddio adnoddau ar-lein, mae dysgwyr yn darganfod y gost o ddefnyddio metr ciwbig o ddŵr, gan amcangyfrif faint mae pob gweithgaredd yn ei gostio mewn blwyddyn. Maent yn cynllunio sut i weithio allan y gost, gan gasglu gwybodaeth gartref a datblygu amcangyfrifon ar gyfer y gost flynyddol. Mae dysgwyr yn ystyried pam mae pobl yn newid eu hymddygiad a sut y maen nhw'n gwneud hynny, cyn creu cynllun manwl o sut y gallent arbed dŵr gartref trwy newid ymddygiad ffrindiau a theulu. Yn olaf, mae dysgwyr yn gweithio ar y cyd i ddatblygu dyfais sy'n arbed dŵr.

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

### 7. Sut ydyn ni’n cael effaith ar ein hamgylchedd?




Mae’r dysgwyr yn ystyried sut mae pethau o’u cwmpas wedi newid, y rhesymau posibl am y newidiadau hyn a’r hyn a olygwn wrth ‘ddatblygiad newydd’. Maen nhw’n archwilio’r ardal leol i nodi lleoedd neu ofodau lle gallai datblygiad newydd ddigwydd, gan ystyried pa effeithiau y gallai datblygiad o’r fath ei gael ar bethau byw yn yr amgylchedd hwnnw a chreu adroddiad amgylcheddol i ddangos sut yr effeithir ar yr ardal. Mae dysgwyr yn ystyried sut mae eu hamgylchedd hanesyddol lleol wedi’i gadw, trwy ddefnyddio mapiau, offer ar-lein a gwaith maes. Maen nhw’n archwilio amgylchedd Cwm Elan, gan bwyso a mesur pam mae angen gofalu am yr ardal hon a’i diogelu ac ystyried sut y gallai bodau dynol fod yn risg i’r ardal. Yn olaf, mae’r dysgwyr yn myfyrio ar y tasgau maen nhw wedi’u cwblhau, gan greu poster yn amlygu pwysigrwydd Cwm Elan i ymwelwyr a’u hannog i warchod yr amgylchedd naturiol a hanesyddol.

### 8. Sut gallai newid yn yr hinsawdd effeithio ar Gwm Elan?

Mae’r dysgwyr yn rhestru gwahanol fathau o dywydd ac yn ystyried sut dywydd a geir ar wahanol adegau o’r flwyddyn a’r gwahaniaeth rhwng ‘tywydd’ a ‘hinsawdd’. Maen nhw’n ystyried yr hinsawdd lle maen nhw’n byw ac yn gwneud ymchwil pellach ac yn archwilio eu ffordd o feddwl parthed beth mae ‘newid yn yr hinsawdd’ yn ei olygu mewn gwirionedd a pham ei fod yn fater mor bwysig. Mae dysgwyr yn ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd ac yn archwilio tystiolaeth sy’n awgrymu bod tymheredd cyfartalog byd-eang yn cynyddu’n gyflym. Maent yn archwilio sut y gallai hyn fod yn achosi i ‘dywydd eithafol’ ddigwydd yn amlach a pha effaith y gallai hyn ei chael ar Gwm Elan. Mae dysgwyr yn dysgu am bwysigrwydd adfer mawnogydd i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Maent yn ystyried yr effeithiau eraill a achosir gan newid yn yr hinsawdd a’r effeithiau y mae lefel y môr yn codi yn ei gael yn fyd-eang ac yn y DU.

### 9. Pam rydyn ni’n adeiladu argaeau?

Mae dysgwyr yn archwilio eu dealltwriaeth o’r gair ‘argae’ ac yn ystyried pam rydyn ni’n adeiladu argaeau. Maen nhw’n defnyddio delweddau o argaeau Cwm Elan a mapiau ac adnoddau ar-lein i ystyried pam mae’r argaeau wedi’u hadeiladu yn y mannau lle cawsant eu hadeiladu. Mae dysgwyr yn defnyddio’r amgylchedd awyr agored i adeiladu argae ar draws dŵr sy’n llifo, gan ystyried effeithiau’r argae ar ddŵr sy’n llifo. Maent yn cyrchu erthygl newyddion ac yn archwilio i ganfod ai bodau dynol yw’r unig anifeiliaid i adeiladu argaeau, cyn iddyn nhw yn y pen draw, ymchwilio ac ystyried sut a pham y mae afancod yn adeiladu argaeau.

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

## 10. Sut gallwn ni ddathlu ein hamgylchedd trwy gelf?

Mae dysgwyr yn archwilio lluniau o Gwm Elan ac yn coladu rhestr o eiriau disgrifiadol. Maent yn ystyried hen baentiadau a rhai modern o Gwm Elan, gan ddewis ffefryn ac egluro pam. Mae dysgwyr yn ystyried cerdd yn seiliedig ar Gwm Elan a thestun am fardd enwog yn ymweld â'r ardal, cyn gwylio fideo o artist llif gadwyn yn creu llwybr cerfluniau Cwm Elan. Yn olaf, cânt eu herio i ddatblygu dathliad artistig o'r ardal o amgylch yr ysgol a'r man y maent yn byw ynddo. Mae grwpiau yn creu rhywbeth unigryw ac yn cydweithio i benderfynu ar y ffordd orau i arddangos eu gwaith o amgylch yr ysgol.



NODIADAU ATHRAWON

**GWEITHGAREDD 10: SUT GALLWN NI DDATHLU EIN HAMGYLCHEDD TRWY GELF?**

TROSOLWG

Mae dysgwyr yn archwilio lluniau o Gwm Elan ac yn coladu rhestr o eiriau disgrifiadol. Maent yn ystyried hen baentiadau a rhai modern o Gwm Elan, gan ddewis ffefryn ac egluro pam. Mae dysgwyr yn ystyried cerdd yn seiliedig ar Gwm Elan a thestun am fardd enwog yn ymweld â'r ardal, cyn gwylio fideo o artist llif gadwyn yn creu llwybr cerfluniau Cwm Elan. Yn olaf, cânt eu herio i ddatblygu dathliad artistig o'r ardal o amgylch yr ysgol a'r man y maent yn byw ynddo. Mae grwpiau yn creu rhywbeth unigryw ac yn cydweithio i benderfynu ar y ffordd orau i arddangos eu gwaith o amgylch yr ysgol.

CYFLEOEDD I DDATBLYGU

CWRICWLWM I GYMRU

Meysydd dysgu a phrofiad:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae gweithgarwch hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn yr **FfLlRh** a'r **FfCD**.

ADNODDAU SY'N CAEL EU CYNNWYS GYDA'R GWEITHGAREDD HWN

- Cwestiynau ffocws a awgrymir.

ADNODDAU SYDD EU HANGEN I WNEUD Y GWEITHGAREDD HWN

- Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd
- Mapiau o'r ardal leol, os ydynt ar gael.

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

# ACTIVITY 1: SUT GALLWN NI WNEUD TAITH GERDDED YN DDIDDOROL?

## TROSOLWG

Mae dysgwyr yn gwylio clip fideo mud o Gwm Elan ac yn ystyried pam y gallai cerddwyr gael eu denu i'r ardal. Maen nhw'n dewis trac sain yn gefndir i'r fideo ac yn cyfiawnhau eu dewis. Mae dysgwyr yn ystyried y rôl y mae cerdded yn ei chwarae yn eu bywydau a pha nodweddion lleol sy'n werth eu nodi wrth gerdded yn yr ardal leol. Maent yn archwilio sut mae gwahanol deithiau cerdded yn cael eu portreadu ar wefan Cwm Elan ac yn defnyddio hyn fel sail i greu taith gerdded sy'n seiliedig ar eu hardal leol. Mae dysgwyr yn cyflwyno eu teithiau cerdded i gynulleidfa a allai gynnwys grwpiau cerdded lleol ac yn derbyn adborth ar eu syniadau.



## CYFLEOEDD I DDATBLYGU

### CWRICWLWM I GYMRU

Meysydd dysgu a phrofiad:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae gweithgarwch hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn yr **FfLlRh** a'r **FfCD**.

## ADNODDAU SY'N CAEL EU CYNNWYS GYDA'R GWEITHGAREDD HWN

- Cwestiynau ffocws a awgrymir.

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

## ADNODDAU SYDD EU HANGEN I WNEUD Y GWEITHGAREDD HWN

- Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd
- Clustffonau ar gyfer Tasg 2
- Ap AO rhad ac am ddim wedi'i lawrlwytho (gyda hysbysebion) gan Apple - OS Maps: Walking & Bike Trails on the App Store neu Google - OS Maps: Walking & Bike Trails – Apps on Google Play a/neu fapiau papur AO o'r ardal leol, os ydynt ar gael.

## DOLENNI DEFNYDDIOL

Lle bo'n bosibl, anogwch y dysgwyr i chwilio am wybodaeth a chael gafael arni'n annibynnol. Fodd bynnag, gallai'r dolenni hyn fod yn ddefnyddiol ar gyfer rhai o'r tasgau.

- Google Maps
- National Library of Scotland – Side by side georeferenced maps viewer with layer swipe (mapiau hanesyddol)
- Cwm Elan – Cerdded
- Ordnance Survey - Guide to OS Maps symbols
- Ap rhad ac am ddim gan Apple – OS Maps: Walking & Bike Trails on the App Store neu Google – OS Maps: Walking & Bike Trails – Apps on Google Play.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau. Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored.
- Bydd y modd y byddwch yn mynd i'r afael â Thasg 1 yn dibynnu ar leoliad eich ysgol mewn perthynas â Chwm Elan, a dylid mynd i'r afael â'r dasg yn unol â hynny.
- Sicrhewch fod gan bob grŵp fynediad i ddyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd.
- Wrth wneud pob tasg, gellir rhoi'r cwestiynau ffocws a awgrymir i'r dysgwyr wrth iddynt ddechrau pob tasg, neu gall yr athro eu defnyddio.

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

## TASG 1: PAM Y GALLAI CWM ELAN FOD YN BOBLOGAIDD GYDA CHERDDWYR?



Eglurwch wrth y dysgwyr mai dyffryn afon yw Cwm Elan, sydd wedi'i leoli ym Mhowys, Cymru ac y cyfeirir ato weithiau fel 'Ardal y Llynnoedd Cymreig'. Mae'n cynnwys 70 milltir sgwâr (180 km2) o lynnoedd a chefn gwlad. Efallai y byddwch chi am ddangos map o'r ardal i ddysgwyr.

Gofynnwch i grwpiau bach o ddysgwyr gyrchu'r ddolen ganlynol Cwm Elan ac i wylio'r clip fideo sydd ar y wefan. Gwahoddwch nhw i ystyried a rhestru'r rhesymau pam y gallai'r ardal hon fod yn gyrchfan boblogaidd i bobl sy'n mwynhau cerdded.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Beth ydych chi'n ei wybod am Gwm Elan? Sut ydych chi'n gwybod y pethau hyn?
- Pa nodweddion o Gwm Elan sy'n cael eu dangos ar y clip fideo?
- Beth yw eich barn am ardal Cwm Elan a ddangosir ar y clip fideo? Pam?
- Pam ydych chi'n meddwl bod yr ardal hon yn boblogaidd i bobl sy'n mwynhau cerdded?

## TASG 2: SUT GALL CERDDORIAETH WELLA CLIP FIDEO?

Gofynnwch i grwpiau o ddysgwyr feddwl pam nad oes sain yn gefndir i'r clip fideo, gan drafod hyn a rhannu eu syniadau. Gwahoddwch nhw i chwilio am ddarn addas o gerddoriaeth fel trac sain yn gefndir i'r clip fideo, a dewis trac sain sy'n addas. Gallai pob grŵp chwarae eu trac sain yn gefndir i'r clip fideo ac egluro pam eu bod yn meddwl bod y gerddoriaeth yn cyd-fynd yn dda â'r clip.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Pam ydych chi'n meddwl nad oes unrhyw sain yn gefndir i'r clip fideo?
- Sut gallai trac sain cefndir wella'r clip fideo? Pam fyddai hyn yn ei wella?
- Pa fath o gerddoriaeth allai fod yn addas? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa gerddoriaeth ydych chi wedi'i dewis fel trac sain cefndir? Pam?
- Pa grŵp ddewisodd y trac cefndir mwyaf addas ar gyfer y fideo? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

## TASG 3: I BLE RYDYN NI'N CERDDED?

Gofynnwch i barau o ddysgwyr ystyried pryd ac i ble maen nhw'n cerdded, ac yna i rannu eu syniadau. Anogwch nhw i feddwl am y gwahanol leoedd maen nhw'n cerdded, y rhesymau dros gerdded yn lle defnyddio dull arall o deithio, ystyried a ydyn nhw'n mwynhau cerdded a pham mae'n nhw'n ei fwynhau, ac ati.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- I ble ydych chi'n cerdded ar ddiwrnod arferol?
- I ba leoedd y byddai'n well gennych beidio â cherdded? Pam?
- Pa mor bell sy'n rhy bell i gerdded? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa bellter (mewn kilometrau neu filltiroedd) ydych chi'n meddwl sy'n rhy bell i'w gerdded? Pam?
- Beth yw'r pellter hiraf yr ydych chi wedi'i gerdded? Sut ydych chi'n gwybod hynny?
- Pryd allech chi ddewis cerdded yn lle teithio mewn car, er enghraifft? Pam?
- Sut deimlad yw cerdded pan nad ydych chi eisiau cerdded, mewn gwirionedd?
- Beth yw'r pethau da am gerdded? Pam ydych chi'n meddwl bod y rhain yn dda?
- Beth sydd ddim mor dda am gerdded? Pam?

## TASG 4: BLE GELLIR CERDDED YNG NGHWM ELAN?

Gofynnwch i'r grwpiau sgrolio i lawr y dudalen we i gael mynediad i'r tab 'Cerdded'. Gellir cyrchu hwn yn uniongyrchol hefyd ar y ddolen hon: Cwm Elan – Cerdded.



Gwahoddwch y dysgwyr i archwilio'r dudalen we a'r naw taith gerdded wahanol a amlinellir ar y dudalen hon. Anogwch nhw i wneud nodyn o nodweddion pob taith sy'n cael ei hamlinellu a'r pwyntiau cyffredinol a wneir ar y dudalen. Gofynnwch i'r dysgwyr roi adborth ar eu syniadau ac esbonio pam maen nhw'n meddwl bod y nodweddion hyn wedi'u hamlygu. Gallech hefyd eu hannog i awgrymu pa rai o'r teithiau cerdded y byddent yn dewis mynd ati i'w cerdded, ac egluro pam.

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Pa wybodaeth sydd ar y dudalen we?
- Beth a eglurir am y cod cefn gwlad a diogelwch, yn eich barn chi?
- Beth mae'n ei ddweud wrthych am bob un o'r teithiau cerdded? Pam ydych chi'n meddwl ei fod yn rhoi'r wybodaeth hon i chi?
- Beth yw pwrpas y mapiau rhyngweithiol yn eich barn chi? Pam?
- Pa mor ddefnyddiol yw'r mapiau yn eich barn chi? Pam?
- Pa wybodaeth a ddarperir gan y graffiau? Pam ydych chi'n meddwl hyn?
- Pa un o'r teithiau cerdded hyn sy'n edrych fwyaf diddorol? Pam?

## TASG 5: BETH ALLWN NI EI WELD AR DAITH GERDDED YNG NGHWM ELAN?

Mae naw taith gerdded wahanol ar y dudalen we a ddefnyddiwyd yn y dasg flaenorol. Gofynnwch i grwpiau bach o ddysgwyr ddewis un o'r teithiau cerdded a dewis man ar y daith y maen nhw'n credu y bydd amrywiaeth o bethau i'w gweld o ran y dirwedd sydd yno. Gwahoddwch nhw i 'edrych o gwmpas' yn y man hwn a disgrifio'n union beth maen nhw'n gallu ei weld wrth edrych tua'r gogledd, de, dwyrain a gorllewin. Sicrhewch fod pob grŵp yn dewis taith gerdded wahanol. Gallant glosio at y map a defnyddio'r allwedd i fapiau OS yn: Ordnance Survey – Guide to OS Maps symbols. Gallwch ddethol dysgwyr i ddisgrifio un o'r golygfeydd o bob un o'r teithiau cerdded.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Pa wybodaeth mae'r map yn ei rhoi i chi? Sut ydych chi'n gwybod?
- Wrth edrych ar allwedd yr AO, pa symbolau ydych chi'n gwybod amdanynt eisoes? Sut ydych chi'n gwybod am y rhain?
- O'r man o'ch dewis ar y daith, beth allech chi ei weld wrth edrych i'r gogledd/de/dwyrain/gorllewin? Sut ydych chi'n gwybod hyn?
- Pa elfennau o'r dirwedd na fyddech chi'n gallu eu gweld o'r man o'ch dewis ar y daith gerdded? Pam na fyddech chi'n gallu eu gweld?

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

# TASG 6: I BLE Y GALLWCH CHI GERDDED, YN Y MAN LLE RYDYCH CHI'N BYW?



Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl a thrafod y pethau maen nhw'n eu hoffi a'u mwynhau am yr ardal maen nhw'n byw ynddi a hefyd y pethau sy'n ddiddorol i'w gweld. Anogwch nhw i ystyried pethau fel parciau, bywyd gwyllt, afonydd, golygfeydd, henebion neu adeiladau hanesyddol, tai lle cafodd pobl adnabyddus eu geni neu yn byw ynddynt, ac ati.

Gallent nodi eu syniadau, gan wneud ymchwil pellach i ychwanegu at eu nodiadau, a chynnwys cyfweld ag aelodau o'u teulu a ffrindiau. Gofynnwch i'r dysgwyr gael mynediad at fap Google neu ddefnyddio map AO o'r ardal o amgylch yr ysgol (map ar bapur neu o'r ap rhad ac am ddim gan Apple - [OS Maps: Walking & Bike Trails on the App Store]() neu Google - [OS Maps: Walking & Bike Trails – Apps on Google Play]()) er mwyn gwirio nad ydyn nhw wedi methu unrhyw beth o bwys.

Unwaith y bydd y dysgwyr wedi creu rhestr gynhwysfawr o syniadau, gallech fynd â nhw ar deithiau cerdded o amgylch yr ysgol a'r man lle maen nhw'n byw, fel eu bod i gyd yn gweld y pethau rhestredig ac yn ystyried eu lleoliad mewn perthynas â'r ysgol â'i gilydd. Anogwch y dysgwyr i wneud llinfapiau syml yn ystod y teithiau cerdded ac i nodi nodweddion penodol arnynt, gan ddefnyddio allwedd fel ag sydd ar fapiau Google neu AO.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Beth ydych chi'n ei hoffi ac yn ei fwynhau am yr ardal hon? Pam?
- Pa bethau diddorol sydd i'w gweld a'u gwneud yn yr ardal hon? Pam maen nhw'n ddiddorol?
- Pa nodweddion a thirnodau adnabyddus sydd yn yr ardal? Sut ydych chi'n gwybod hyn?
- Pa bobl adnabyddus sydd yn dod o'r fan hon? Ble cawsant eu geni? Ble roedden nhw'n byw? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa adeiladau a henebion hanesyddol sydd yn yr ardal? Beth ydych chi'n ei wybod amdanyn nhw? Sut ydych chi'n gwybod hyn?
- Sut byddwch chi'n gwneud map bras ar y daith gerdded? Pam ei wneud yn y modd hwn?
- Sut byddwch chi'n gwneud nodyn neu allwedd o nodweddion pwysig ar y map bras?

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

# TASG 7: PA LWYBRAU CERDDED LLEOL ALLWN NI EU CREU?

Eglurwch wrth grwpiau bach o ddysgwyr eich bod chi am iddyn nhw greu taith gerdded sy'n seiliedig ar yr ardal leol. Atgoffwch nhw am y teithiau cerdded yng Nghwm Elan y ceir amlinelliad ohonynt, a rhestrau'r dysgwyr o nodweddion a thirnodau lleol a'u mapiau bras.

Gallai dysgwyr gael mynediad at fapiau digidol o'r ardal, gan gynnwys y mapiau â golygfeydd o'r awyr, delweddau, golygfa stryd, ac ati, a hefyd gallent ddefnyddio copïau caled o fapiau lleol, os ydynt ar gael. Gwahoddwch nhw i ddefnyddio'r holl wybodaeth ac adnoddau sydd ganddyn nhw i ddatblygu a chreu 'llwybr cerdded lleol' ar gyfer ymwelwyr a ddaw i'r ardal. Gallai'r llwybrau hyn gynnwys man cychwyn a gorffen, pellter cyffredinol, lefel anhawster, nodweddion i edrych amdanynt yn ystod y daith gerdded, ac ati. Efallai y bydd dysgwyr yn cael eu hannog i greu'r rhain yn ddigidol, gan gynnwys hyperddolenni i nodweddion nodedig ar y daith gerdded ac ati.

Gallai dysgwyr gyflwyno eu llwybrau cerdded mewn gwasanaeth ysgol, er enghraifft, a gwahodd grwpiau cerdded lleol a phobl sy'n ymwneud â thwristiaeth leol i fod yn y gynulleidfa. Efallai y gwahoddir y bobl hyn i roi adborth i'r dysgwyr.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Sut byddwch chi'n creu eich 'llwybr cerdded lleol'? Pam ei wneud fel hyn?
- Pa fapiau fyddwch chi'n eu defnyddio? Pam?
- Pa wybodaeth fyddwch chi'n ei chynnwys? Pam?
- Sut byddwch chi'n cyfrifo pellter y daith gerdded? Pam fod hyn yn ffordd dda o'i wneud?
- Sut byddwch chi'n sicrhau mai eich taith gerdded chi yw'r un orau? Pam y bydd hyn yn ei gwneud yr un orau?
- Sut byddwch chi'n cyflwyno eich llwybr cerdded i'r gynulleidfa? Pam ei gyflwyno fel hyn?
- Sut byddwch chi'n defnyddio adborth y gynulleidfa i wella'ch llwybr cerdded? Pam y bydd hynny'n ei wella?

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

# MANYLION YNGHYLCH Y CYFLEOEDD I DDATBLYGU

## CWRICWLWM I GYMRU

**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:**

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

- Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.
- Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.
- Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

**Iechyd a Lles**

- Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.

**Y Dyniaethau**

- Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.
- Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.

**Mathemateg a Rhifedd**

- Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.

**FfLIRh**

**Llythrennedd**

- **Gwrando:** Datblygu geirfa; Gwrando fel rhan o siarad cydweithredol.
- **Siarad:** Eglurder a geirfa; Diben; Siarad cydweithredol; Gofyn cwestiynau.
- **Ysgrifennu:** Geirfa, sillafu, gramadeg; Cynllunio a threfnu ar gyfer gwahanol ddibenion, cynulleidfaoedd a chyd-destunau; Prawfddarllen, golygu a gwella.

**FfCD**

- **Dinasyddiaeth:** Hunaniaeth, delwedd ac enw da; Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth.
- **Rhyngweithio a chydweithio:** Cydweithredu; Cyfnewid a rhannu gwybodaeth.
- **Cynhyrchu:** Cyrchu, chwilio a chynllunio cynnwys digidol; Creu cynnwys digidol; Gwerthuso a gwella cynnwys digidol.

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

# CWESTIYNAU FFOCWS A AWGRYMIR

| TASG 1 | |
| --- | --- |
| Pam y gallai Cwm Elan fod yn boblogaidd gyda cherddwyr? | • Beth ydych chi'n ei wybod am Gwm Elan? Sut ydych chi'n gwybod y pethau hyn?<br>• Pa nodweddion o Gwm Elan sy'n cael eu dangos ar y clip fideo?<br>• Beth yw eich barn am ardal Cwm Elan a ddangosir ar y clip fideo? Pam?<br>• Pam ydych chi'n meddwl bod yr ardal hon yn boblogaidd i bobl sy'n mwynhau cerdded? |

| TASG 2 | |
| --- | --- |
| Sut gall cerddoriaeth wella clip fideo? | • Pam ydych chi'n meddwl nad oes unrhyw sain yn gefndir i'r clip fideo?<br>• Sut gallai trac sain cefndir wella'r clip fideo? Pam fyddai hyn yn ei wella?<br>• Pa fath o gerddoriaeth allai fod yn addas? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Pa gerddoriaeth ydych chi wedi'i dewis fel trac sain cefndir? Pam?<br>• Pa grŵp ddewisodd y trac cefndir mwyaf addas ar gyfer y fideo? Pam ydych chi'n meddwl hynny? |

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

| TASG 3 | |
|---|---|
| I ble rydyn ni'n cerdded? | • I ble ydych chi'n cerdded ar ddiwrnod arferol?<br>• I ba leoedd y byddai'n well gennych beidio â cherdded? Pam?<br>• Pa mor bell sy'n rhy bell i gerdded? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Pa bellter (mewn kilometrau neu filltiroedd) ydych chi'n meddwl sy'n rhy bell i'w gerdded? Pam?<br>• Beth yw'r pellter hiraf yr ydych chi wedi'i gerdded? Sut ydych chi'n gwybod hynny?<br>• Pryd allech chi ddewis cerdded yn lle teithio mewn car, er enghraifft? Pam?<br>• Sut deimlad yw cerdded pan nad ydych chi eisiau cerdded, mewn gwirionedd?<br>• Beth yw'r pethau da am gerdded? Pam ydych chi'n meddwl bod y rhain yn dda?<br>• Beth sydd ddim mor dda am gerdded? Pam? |

| TASG 4 | |
|---|---|
| Ble gellir cerdded yng Nghwm Elan? | • Pa wybodaeth sydd ar y dudalen we?<br>• Beth a eglurir am y cod cefn gwlad a diogelwch, yn eich barn chi?<br>• Beth mae'n ei ddweud wrthych am bob un o'r teithiau cerdded? Pam ydych chi'n meddwl ei fod yn rhoi'r wybodaeth hon i chi?<br>• Beth yw pwrpas y mapiau rhyngweithiol yn eich barn chi? Pam?<br>• Pa mor ddefnyddiol yw'r mapiau yn eich barn chi? Pam?<br>• Pa wybodaeth a ddarperir gan y graffiau? Pam ydych chi'n meddwl hyn?<br>• Pa un o'r teithiau cerdded hyn sy'n edrych fwyaf diddorol? Pam? |

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

| TASG 5 | |
| --- | --- |
| Beth allwn ni ei weld ar daith gerdded yng Nghwm Elan? | • Pa wybodaeth mae'r map yn ei rhoi i chi? Sut ydych chi'n gwybod?<br>• Wrth edrych ar allwedd yr AO, pa symbolau ydych chi'n gwybod amdanynt eisoes? Sut ydych chi'n gwybod am y rhain?<br>• O'r man o'ch dewis ar y daith, beth allech chi ei weld wrth edrych i'r gogledd/de/dwyrain/gorllewin? Sut ydych chi'n gwybod hyn?<br>• Pa elfennau o'r dirwedd na fyddech chi'n gallu eu gweld o'r man o'ch dewis ar y daith gerdded? Pam na fyddech chi'n gallu eu gweld? |

| TASG 6 | |
| --- | --- |
| I ble y gallwch chi gerdded, yn y man lle rydych chi'n byw? | • Beth ydych chi'n ei hoffi ac yn ei fwynhau am yr ardal hon? Pam?<br>• Pa bethau diddorol sydd i'w gweld a'u gwneud yn yr ardal hon? Pam maen nhw'n ddiddorol?<br>• Pa nodweddion a thirnodau adnabyddus sydd yn yr ardal? Sut ydych chi'n gwybod hyn?<br>• Pa bobl adnabyddus sydd yn dod o'r fan hon? Ble cawsant eu geni? Ble roedden nhw'n byw? Sut ydych chi'n gwybod?<br>• Pa adeiladau a henebion hanesyddol sydd yn yr ardal? Beth ydych chi'n ei wybod amdanyn nhw? Sut ydych chi'n gwybod hyn?<br>• Sut byddwch chi'n gwneud map bras ar y daith gerdded? Pam ei wneud yn y modd hwn?<br>• Sut byddwch chi'n gwneud nodyn neu allwedd o nodweddion pwysig ar y map bras? |

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

| TASG 7 | |
|---|---|
| Pa lwybrau cerdded lleol allwn ni eu creu? | • Sut byddwch chi'n creu eich 'llwybr cerdded lleol'? Pam ei wneud fel hyn?<br>• Pa fapiau fyddwch chi'n eu defnyddio? Pam?<br>• Pa wybodaeth fyddwch chi'n ei chynnwys? Pam?<br>• Sut byddwch chi'n cyfrifo pellter y daith gerdded? Pam fod hyn yn ffordd dda o'i wneud?<br>• Sut byddwch chi'n sicrhau mai eich taith gerdded chi yw'r un orau? Pam y bydd hyn yn ei gwneud yr un orau?<br>• Sut byddwch chi'n cyflwyno eich llwybr cerdded i'r gynulleidfa? Pam ei gyflwyno fel hyn?<br>• Sut byddwch chi'n defnyddio adborth y gynulleidfa i wella'ch llwybr cerdded? Pam y bydd hynny'n ei wella? |

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

# GWEITHGAREDD 2: BETH ALLWN NI EI DDARGANFOD AM DDŴR YN EIN CARTREFI?

## TROSOLWG



Mae dysgwyr yn archwilio ym mhle mae dŵr yn mynd i mewn ac yn gadael eu cartref a sut mae'n gwneud hyn, ac yn ystyried o ble mae'r dŵr hwn yn dod ac i ble mae'n mynd wedyn. Maen nhw'n cael eu hannog i chwilio am dystiolaeth i gefnogi eu syniadau, ystyried beth maen nhw'n ei wybod am y gylchred ddŵr a gwneud ymchwil i ddarganfod mwy o wybodaeth. Mae dysgwyr yn datblygu meini prawf llwyddiant ar gyfer gwneud cyflwyniad da, gan weithio ar y cyd i greu cyflwyniad o'u dewis sy'n para am un munud, gan ei gyflwyno i'r dosbarth. Maent yn derbyn adborth gan gymheiriaid ac yn myfyrio ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu am y gylchred ddŵr a gwneud cyflwyniadau.

**Sylwch, os gwelwch yn dda:** mae'r gweithgaredd hwn wedi'i gynllunio fel bod Gweithgaredd 3 yn ei ddilyn. Mae'r gweithgaredd hwn yn rhoi trosolwg 'darlun mawr' ac mae Gweithgaredd 3 yn cymryd agwedd fwy penodol, gan annog dysgwyr i ddarganfod ffynhonnell y dŵr sy'n cyflenwi eu cartref, sef Cwm Elan o bosibl, sut mae'r dŵr yn cyrraedd eu cartref a lle mae'r dŵr yn cael ei drin ar ôl iddo adael eu cartref.

## CYFLEOEDD I DDATBLYGU

### CWRICWLWM I GYMRU

Meysydd dysgu a phrofiad:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae gweithgarwch hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn yr **FfLlRh** a'r **FfCD**.

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

## ADNODDAU SYN CAEL EU CYNNWYS GYDA'R GWEITHGAREDD HWN

- Adnodd 1 – Grid CwAMFf
- Cwestiynau ffocws a awgrymir.

## ADNODDAU SYDD EU HANGEN I WNEUD Y GWEITHGAREDD HWN

- Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd
- Mapiau o'r ardal leol, os ydynt ar gael.

## DOLENNI DEFNYDDIOL

Lle bo'n bosibl, anogwch y dysgwyr i chwilio am wybodaeth a chael gafael arni'n annibynnol. Fodd bynnag, gallai'r dolenni hyn fod yn ddefnyddiol ar gyfer rhai o'r tasgau.

- Google Maps
- BBC Bitesize – What is the water cycle?
- National Geographic Education – Water Cycle.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau. Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored.
- Sicrhewch fod gan bob grŵp fynediad i ddyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd.
- Wrth wneud pob tasg, gellir rhoi'r cwestiynau ffocws a awgrymir i'r dysgwyr wrth iddynt ddechrau pob tasg neu gall yr athro eu defnyddio.

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

## TASG 1: BLE MAE DŴR YN DOD I MEWN I'N CARTREFI A BLE MAE'N GADAEL EIN CATREFI?

Gofynnwch i ddysgwyr unigol wneud amlinelliad syml o'u cartref, ar ddalen o bapur A3 os yn bosibl. Gwahoddwch nhw i ychwanegu manylion at eu llun i ddangos, er enghraifft, ble a sut mae dŵr yn mynd i mewn ac yn gadael eu cartref, ble mae dŵr yn cael ei ddefnyddio yn y cartref, ac ati. Efallai y bydd angen i chi roi rhai awgrymiadau cychwynnol i'w hannog, er enghraifft, 'allan o dap neu gawod', 'pan fyddwch chi'n tynnu'r plwg bath neu'n fflysio'r toiled' ac ati. Fan hyn, rydych chi'n ceisio ysgogi gwybodaeth a dealltwriaeth flaenorol y dysgwyr ynghylch sut mae dŵr yn cael ei gyflenwi i gartrefi, sut mae'n symud o gwmpas y cartref a sut mae dŵr gwastraff yn gadael y cartref.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**
Meddyliwch am y dŵr rydych chi'n ei ddefnyddio gartref:
- Ble mae'r dŵr yn dod i mewn i'ch cartref? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut mae'n dod i mewn i'ch cartref? Sut ydych chi'n gwybod hynny?
- Sut mae dŵr yn cyrraedd gwahanol rannau o'ch cartref, yn eich barn chi?
- Ble mae'r dŵr yn gadael eich cartref? Sut ydych chi'n gwybod hynny?
- Sut mae'r dŵr yn gadael eich cartref? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## TASG 2: BLE MAE EIN DŴR YN CYCHWYN AC YN GORFFEN EI DAITH?



Yn y dasg hon, rydym am archwilio'r hyn y mae dysgwyr yn ei wybod ac yn ei ddeall am y daith a wneir gan ddŵr cyn iddo gyrraedd ein cartrefi ac ar ôl iddo adael ein cartrefi. Defnyddiwch gwestiynu agored i annog dysgwyr i archwilio'r teithiau hyn ac i egluro ym mhle maen nhw'n meddwl y mae'r daith yn dechrau ac yn gorffen.

Gofynnwch i ddysgwyr unigol anodi eu lluniau o Dasg 1, trwy ychwanegu manylion i ddangos ble maen nhw'n meddwl mae'r dŵr sy'n dod i mewn i'w cartref yn dechrau ei daith a ble mae'r daith hon yn gorffen ar ôl i'r dŵr adael eu cartref. Defnyddiwch y syniad o 'a chyn hynny?' a 'ac ar ôl hynny?' i annog dysgwyr i ystyried eu dealltwriaeth o daith dŵr ac i archwilio a ydyn nhw'n gwneud cysylltiadau â'r gylchred ddŵr. Anogwch nhw i dynnu lluniau o'u syniadau ac i ychwanegu saethau i ddangos cyfeiriad a thestun i egluro'r hyn sydd yn eu meddwl. Gwahoddwch barau neu grwpiau bach o ddysgwyr i ddangos eu lluniau i'w cyfoedion, a'u hegluro.


Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

Fel tasg ychwanegol, gallech fynd â'r dysgwyr i dir yr ysgol a'r ardal leol i chwilio am dystiolaeth o gyflenwad dŵr a chael gwared â dŵr, e.e. draeniau, pibellau, gorchuddion tyllau archwilio, ac ati. Gallech hefyd ofyn iddynt ailadrodd y broses hon y tu allan i'w cartrefi ac i adrodd ar eu canfyddiadau.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Yn eich barn chi, ble'r oedd y dŵr cyn iddo gyrraedd eich cartref? Sut gyrhaeddodd eich cartref? Sut ydych chi'n gwybod hynny?
- Ble ydych chi'n meddwl oedd o cyn hynny? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Ble oedd y dŵr ar ddechrau ei daith i'ch cartref? Sut ydych chi'n meddwl ei fod wedi cyrraedd yno? Ble gallai fod cyn hynny?
- I ble mae dŵr yn mynd ar ôl iddo adael eich cartref, yn eich barn chi? Sut mae'r dŵr yn cyrraedd yno? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Ble mae'n mynd nesaf, yn eich barn chi? Sut ydych chi'n gwybod?
- Ble mae'r dŵr yn gorffen ei daith, yn eich barn chi? Ydy'r dŵr yn mynd i unrhyw le arall? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## TASG 3: BETH YDYN NI'N EI WYBOD AM Y GYLCHRED DDŴR?



Rhoddodd Tasgau 1 a 2 gyfleoedd i ddysgwyr archwilio eu syniadau am y daith y mae dŵr yn ei gwneud i'n cartrefi ac oddi yno. Er mwyn adeiladu ar y syniadau hyn, gwahoddwch barau o ddysgwyr i ddefnyddio meddwl-paru-rhannu i ystyried beth maen nhw'n ei wybod am y gylchred ddŵr.

Dywedwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n gweithio mewn grwpiau bach ac ar ddiwedd y dasg hon bydd gofyn iddyn nhw wneud cyflwyniad munud o hyd i esbonio i eraill am y gylchred ddŵr. Gofynnwch i grwpiau bach o ddysgwyr feddwl sut yr hoffent gyflwyno eu syniadau a thrafod hyn, gan y bydd hyn yn pennu pa wybodaeth y byddant yn chwilio amdani ac yn ei chasglu. Gwahoddwch nhw i ddefnyddio Adnodd 1 (grid CwAMFf) fel strwythur i chwilio am a chael mynediad at wybodaeth berthnasol am y gylchred ddŵr a fydd yn eu helpu i ddatblygu eu cyflwyniad.

Gallai rhai gwefannau defnyddiol gynnwys:

- BBC Bitesize – What is the water cycle?
- National Geographic Education – Water Cycle.

Bydd chwilio am ddelweddau o'r 'gylchred ddŵr' ar-lein hefyd yn rhoi mynediad i ystod o ddiagramau a phosibiliadau darllen pellach.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Beth ydych chi'n ei wybod am y gylchred ddŵr? Sut ydych chi'n gwybod y pethau hyn?
- Beth mae eich partner yn ei wybod? Sut mae hyn yn wahanol i'ch barn chi?
- Pa fath o gyflwyniad fyddwch chi'n ei wneud? Pam?
- Pa wybodaeth fyddwch chi'n chwilio amdani? Pam?
- Pa dermau chwilio fyddwch chi'n eu defnyddio? Pam?
- Sut fyddwch chi'n gwybod a yw'r wybodaeth y byddwch chi'n dod o hyd iddi yn ddibynadwy?

## TASG 4: SUT BYDDWN NI'N CYFLWYNO EIN SYNIADAU AM Y GYLCHRED DDŴR?

Gwahoddwch y dysgwyr i gydweithio fel tîm i ddatblygu eu cyflwyniad. Anogwch nhw i ystyried beth yw eu meini prawf llwyddiant ar gyfer cyflwyniad da, ar ddechrau'r broses ddatblygu, gan gadw'r rhain mewn cof a'u defnyddio fel canllaw wrth iddynt ddatblygu'r cyflwyniad.

Sicrhewch fod y dysgwyr yn rhydd i ddewis sut i gyflwyno eu syniadau am y gylchred ddŵr a'ch bod yn darparu'r cymorth angenrheidiol iddyn nhw. Anogwch nhw i ystyried pwrpas y cyflwyniad a phwy yw eu cynulleidfa ac i feddwl sut y byddan nhw'n defnyddio geirfa briodol i sicrhau eglurder. Gallai rhai ddewis gwneud cyflwyniad ar ffurf PowerPoint neu Prezi, er enghraifft, tra gallai eraill greu animeiddiad, fideo neu gyflwyniad chwarae rôl.

Gwahoddwch bob grŵp i egluro eu meini prawf llwyddiant ac i gyflwyno eu syniadau i'r gynulleidfa o fewn un munud. Gofynnwch i holl aelodau'r gynulleidfa asesu pob cyflwyniad gan ddefnyddio dwy seren a dymuniad. Gellir rhoi detholiad bach o'r rhain ar ffurf adborth llafar neu gellir eu cofnodi ar nodiadau gludiog a'u rhoi i'r grŵp sy'n cyflwyno nesaf.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Beth yw eich meini prawf llwyddiant ar gyfer cyflwyniad da? Pam?
- Pa un o'r meini prawf hyn yw'r pwysicaf? Pam?
- Sut byddwch chi'n defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd gennych i ddatblygu'r cyflwyniad?
- Sut byddwch chi'n sicrhau mai dim ond munud o hyd yw'r cyflwyniad?

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

## TASG 5: BETH YDYN NI WEDI'I DDYSGU AM Y GYLCHRED DDŴR AC AM WNEUD CYFLWYNIADAU?




Gofynnwch i grwpiau bach o ddysgwyr fyfyrio ar y tasgau maen nhw wedi'u cwblhau ac i feddwl ynghylch beth maen nhw wedi'i ddysgu am y gylchred ddŵr a gwneud cyflwyniadau, a thrafod hyn. Gwahoddwch rai ohonyn nhw i rannu eu syniadau gyda'r dosbarth ac annog trafodaeth am wahaniaethau a thebygrwydd mewn profiadau dysgu.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Beth ydych chi wedi'i ddysgu wrth gwblhau'r tasgau? Sut y gwnaethoch chi ddysgu'r pethau hyn?
- Beth ydych chi'n ei ddeall yn well ar ôl cwblhau'r tasgau? Sut ydych chi'n gwybod hynny?
- Sut mae eich dealltwriaeth o'r gylchred ddŵr wedi newid?
- Beth aeth yn dda yn eich cyflwyniad? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa rannau o'r adborth a gawsoch oedd fwyaf defnyddiol? Pam?
- Sut byddwch chi'n gwella eich cyflwyniad nesaf? Pam y bydd hynny'n ei wella?

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

# MANYLION YNGHYLCH Y CYFLEOEDD I DDATBLYGU

## CWRICWLWM I GYMRU

**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:**

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

- Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

**Iechyd a Lles**

- Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.
- Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.
- Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.

**Y Dyniaethau**

- Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.
- Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.
- Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.
- Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau.

**FfLlRh**

**Llythrennedd**

- **Gwrando:** Datblygu geirfa; Gwrando fel rhan o siarad cydweithredol.
- **Darllen:** Strategaethau darllen; Deall, ymateb a dadansoddi.
- **Siarad:** Eglurder a geirfa; Diben; Siarad cydweithredol; Gofyn cwestiynau.
- **Ysgrifennu:** Geirfa, sillafu, gramadeg; Cynllunio a threfnu ar gyfer gwahanol ddibenion, cynulleidfaoedd a chyd-destunau; Prawfddarllen, golygu a gwella.

**FfCD**

- **Dinasyddiaeth:** Hunaniaeth, delwedd ac enw da; Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth.
- **Rhyngweithio a chydweithio:** Cyfathrebu; Cydweithredu; Cyfnewid a rhannu gwybodaeth.
- **Cynhyrchu:** Cyrchu, chwilio a chynllunio cynnwys digidol; Creu cynnwys digidol; Gwerthuso a gwella cynnwys digidol.

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

# ADNODD 1

## GRID CWAMFF

| Cwestiwn | Ateb | Manylion | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|
| | | | |

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

# CWESTIYNAU FFOCWS A AWGRYMIR

| | |
|---|---|
| **TASG 1**<br><br>Ble mae dŵr yn dod i mewn i'n cartrefi a ble mae'n gadael ein catrefi? | Meddyliwch am y dŵr rydych chi'n ei ddefnyddio gartref:<br>• Ble mae'r dŵr yn dod i mewn i'ch cartref? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Sut mae'n dod i mewn i'ch cartref? Sut ydych chi'n gwybod hynny?<br>• Sut mae dŵr yn cyrraedd gwahanol rannau o'ch cartref, yn eich barn chi?<br>• Ble mae'r dŵr yn gadael eich cartref? Sut ydych chi'n gwybod hynny?<br>• Sut mae'r dŵr yn gadael eich cartref? Pam ydych chi'n meddwl hynny? |
| **TASG 2**<br><br>Ble mae ein dŵr yn cychwyn ac yn gorffen ei daith? | • Yn eich barn chi, ble'r oedd y dŵr cyn iddo gyrraedd eich cartref? Sut gyrhaeddodd eich cartref? Sut ydych chi'n gwybod hynny?<br>• Ble ydych chi'n meddwl oedd o cyn hynny? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Ble oedd y dŵr ar ddechrau ei daith i'ch cartref? Sut ydych chi'n meddwl ei fod wedi cyrraedd yno? Ble gallai fod cyn hynny?<br>• I ble mae dŵr yn mynd ar ôl iddo adael eich cartref, yn eich barn chi? Sut mae'r dŵr yn cyrraedd yno? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Ble mae'n mynd nesaf, yn eich barn chi? Sut ydych chi'n gwybod?<br>• Ble mae'r dŵr yn gorffen ei daith, yn eich barn chi? Ydy'r dŵr yn mynd i unrhyw le arall? Pam ydych chi'n meddwl hynny? |

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

| TASG 3 | |
|---|---|
| Beth ydyn ni'n ei wybod am y gylchred ddŵr? | • Beth ydych chi'n ei wybod am y gylchred ddŵr? Sut ydych chi'n gwybod y pethau hyn?<br>• Beth mae eich partner yn ei wybod? Sut mae hyn yn wahanol i'ch barn chi?<br>• Pa fath o gyflwyniad fyddwch chi'n ei wneud? Pam?<br>• Pa wybodaeth fyddwch chi'n chwilio amdani? Pam?<br>• Pa dermau chwilio fyddwch chi'n eu defnyddio? Pam?<br>• Sut fyddwch chi'n gwybod a yw'r wybodaeth y byddwch chi'n dod o hyd iddi yn ddibynadwy? |

| TASG 4 | |
|---|---|
| Sut byddwn ni'n cyflwyno ein syniadau am y gylchred ddŵr? | • Beth yw eich meini prawf llwyddiant ar gyfer cyflwyniad da? Pam?<br>• Pa un o'r meini prawf hyn yw'r pwysicaf? Pam?<br>• Sut byddwch chi'n defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd gennych i ddatblygu'r cyflwyniad?<br>• Sut byddwch chi'n sicrhau mai dim ond munud o hyd yw'r cyflwyniad? |

| TASG 5 | |
|---|---|
| Beth ydyn ni wedi'i ddysgu am y gylchred ddŵr ac am wneud cyflwyniadau? | • Beth ydych chi wedi'i ddysgu wrth gwblhau'r tasgau? Sut y gwnaethoch chi ddysgu'r pethau hyn?<br>• Beth ydych chi'n ei ddeall yn well ar ôl cwblhau'r tasgau? Sut ydych chi'n gwybod hynny?<br>• Sut mae eich dealltwriaeth o'r gylchred ddŵr wedi newid?<br>• Beth aeth yn dda yn eich cyflwyniad? Sut ydych chi'n gwybod?<br>• Pa rannau o'r adborth a gawsoch oedd fwyaf defnyddiol? Pam?<br>• Sut byddwch chi'n gwella eich cyflwyniad nesaf? Pam y bydd hynny'n ei wella? |

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

# GWEITHGAREDD 3: O BLE MAE FY NŴR YN DOD AC I BLE MAE'N MYND?

## TROSOLWG



Yng Ngweithgaredd 2, ystyriodd y dysgwyr o ble mae'r dŵr sy'n cael ei ddefnyddio yn eu cartref yn dod ac i ble mae'n mynd ar ôl iddo adael eu cartref. Archwiliwyd hyn yn gyffredinol, gan ystyried y 'darlun mawr' yn unig, ac roedd yn cynnwys dysgwyr yn darganfod mwy am y gylchred ddŵr a sut mae hyn yn gysylltiedig â'r dŵr sy'n mynd i mewn i'w cartref ac yn gadael eu cartref. Yn y gweithgaredd hwn, cymerir agwedd mwy penodol, gan annog dysgwyr i ddarganfod ffynhonnell y dŵr sy'n cyflenwi eu cartref, sut mae'n cyrraedd eu cartref a ble mae'r dŵr yn cael ei drin ar ôl iddo adael eu cartref.

## CYFLEOEDD I DDATBLYGU

### CWRICWLWM I GYMRU

Meysydd dysgu a phrofiad:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae gweithgarwch hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn yr **FfLlRh** a'r **FfCD**.

## ADNODDAU SY'N CAEL EU CYNNWYS GYDA'R GWEITHGAREDD HWN

- Cwestiynau ffocws a awgrymir.

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

## ADNODDAU SYDD EU HANGEN I WNEUD Y GWEITHGAREDD HWN

- Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.

## DOLENNI DEFNYDDIOL

Anogwch y dysgwyr i chwilio am wybodaeth a chael gafael arni'n annibynnol, lle bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, gallai'r dolenni hyn fod yn ddefnyddiol ar gyfer rhai o'r tasgau.

- Dŵr Cymru/Welsh Water – Dŵr
- Severn Trent Water
- Semrush Blog – 14 Influential Infographic Examples To Inspire You
- Dŵr Cymru/Welsh Water - Trin Dŵr Gwastraff
- ARC GIS story maps – The water journey
- Glascoed People and Places – The Reservoir
- Severn Trent – News – New pipes to provide reliable water supply for Newtown
- BBC News – Welsh Water: Sewage dumped in waterways for 600,000 hours
- BBC News – River pollution: Sewage spill prevention will hit water bills.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau. Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored.
- Wrth wneud pob tasg, gellir rhoi'r cwestiynau ffocws a awgrymir i'r dysgwyr wrth iddynt ddechrau pob tasg neu gall yr athro eu defnyddio.

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

## TASG 1: O BLE MAE'R DŴR A DDEFNYDDIR YN FY NHŶ YN DOD?

Gofynnwch i barau o ddysgwyr ddefnyddio meddwl-paru-rhannu i ystyried beth maen nhw'n ei wybod ynghylch o ble mae'r dŵr a ddefnyddir yn eu cartref yn dod. Anogwch nhw i feddwl ym mha ardal o'r wlad y gallai'r dŵr gael ei storio (e.e. Cwm Elan) a sut y gellid ei storio, ac yna mynd ymlaen i drafod hyn.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**
Meddyliwch am y dŵr rydych chi'n ei ddefnyddio gartref:

- O ble mae'r dŵr hwn yn dod? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- O ba ardal mae'n dod? Sut ydych chi'n gwybod? Ble mae hwn ar y map?
- Sut mae'r dŵr yn cael ei storio, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut mae'n mynd o'r fan honno i'ch cartref, yn eich barn chi?

## TASG 2: BETH ALLWN NI EI DDARGANFOD AM EIN CYFLENWAD DŴR?

Eglurwch wrth y dysgwyr mai tasg ymchwil grŵp yw hon, i ddarganfod o ble mae'r dŵr sy'n cyflenwi eu cartrefi, stryd, stad, ysgol, pentref ac ati yn dod. Anogwch nhw i ddefnyddio eu syniadau eu hunain i chwilio am wybodaeth; fodd bynnag, byddai cysylltu â'r awdurdod dŵr perthnasol Dŵr Cymru/Welsh Water – Dŵr neu Severn Trent Water yn werth ei wneud - naill ai drwy e-bost neu dros y ffôn.



Hefyd, gwahoddwch y dysgwyr i ddod o hyd i'r gronfa ddŵr y mae eu dŵr yn cael ei gyflenwi ohoni, ar fap os yn bosibl. Gallent ddefnyddio mapiau ar-lein neu bapur i chwilio am gronfeydd dŵr.

Anogwch y dysgwyr i gyrchu amrywiaeth o ffeithluniau ac ystyried pa rai sydd orau yn eu barn nhw a pham mai'r rhain yw'r gorau. Gallent chwilio ar-lein a chael mynediad at ddolenni megis Semrush Blog – 14 Influential Infographic Examples To Inspire You.

Yn dilyn hyn, gwahoddwch y dysgwyr i chwilio am wybodaeth a'i chyrchu, ac i greu ffeithlun i ddangos i eraill beth maen nhw wedi'i ddarganfod. Gallai hyn gynnwys ystadegau am y gronfa ddŵr y cyflenwir eu dŵr ohoni, map i ddangos ble mae'r gronfa ddŵr a gwybodaeth am sut mae'r dŵr yn cael ei gludo o'r gronfa ddŵr i'w cartrefi. Gofynnwch i bob grŵp gyflwyno'i ffeithlun er mwyn rhannu eu canfyddiadau.

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Sut byddwch chi'n darganfod o ble mae'ch dŵr yn cael ei gyflenwi? Pam fyddwch chi'n ei wneud fel hyn?
- Beth ydych chi'n disgwyl ei ddarganfod? Pam?
- Yn eich barn chi, beth fydd y ffynhonnell wybodaeth orau? Pam?
- Ble mae'r adnodd dŵr ar y map? Sut wnaethoch chi ddod o hyd iddo?
- Pa wybodaeth fyddwch chi'n ei chynnwys ar eich ffeithlun? Pam?

## TASG 3: BETH ALLWN NI EI DDARGANFOD AM EIN DŴR GWASTRAFF?

Gofynnwch i'r un grwpiau bach o ddysgwyr ddarganfod i ble mae'r dŵr gwastraff o'u cartrefi neu'r ysgol yn mynd pan fydd yn diflannu i lawr y twll plwg neu'r toiled. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar-lein.



Anogwch y dysgwyr i leoli'r gwaith trin dŵr gwastraff sy'n gwasanaethu eu cartrefi neu'r ysgol a'u hannog i ddod o hyd i hwn ar fap ac ystyried sut mae'r dŵr yn teithio oddi yno i'r gwaith trin dŵr.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Ble ydych chi'n meddwl y mae'r dŵr gwastraff yn mynd ar ôl iddo adael eich cartref? Sut mae'r dŵr yn cyrraedd yno? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth ydych chi'n meddwl sy'n digwydd iddo yno? Pam?
- Beth sy'n digwydd i'r dŵr ar ôl hynny? Sut ydych chi'n gwybod?

## TASG 4: SUT MAE TAITH Y DŴR O'R GRONFA DDŴR I'R GWAITH TRIN DŴR YN RHAN O'R GYLCHRED DDŴR?

Gofynnwch i grwpiau bach o ddysgwyr feddwl am y cwestiwn a ofynnir yn nheitl y dasg, a'i drafod. Anogwch nhw i edrych ar eu gwaith ar y gylchred ddŵr yng Ngweithgaredd 2 neu i ddod o hyd i gynrychioliad o'r gylchred ddŵr ar-lein.

Gwahoddwch nhw i ystyried pa ran o'r gylchred ddŵr yw eu tŷ nhw, ac i egluro hyn a rhannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Beth yw'r gylchred ddŵr? Sut ydych chi'n gwybod?
- Beth yw gwahanol rannau'r gylchred?
- Beth sy'n digwydd ym mhob rhan? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa ran o'r gylchred ddŵr yw eich tŷ chi a sut mae eich tŷ yn rhan o'r gylchred hon?
- Sut ydych chi'n gwybod?

## TASG 5: BETH YW'R PROBLEMAU POSIBL GYDA DŴR GWASTRAFF?



Gofynnwch i'r dysgwyr a ydyn nhw'n ymwybodol o straeon yn y newyddion am ddŵr gwastraff neu garthion yn cael eu rhyddhau i afonydd a'r môr. Anogwch nhw i rannu'r hyn maen nhw'n ei wybod a ble maen nhw wedi clywed neu weld yr wybodaeth hon.

Gofynnwch i grwpiau bach o ddysgwyr ddarllen yr erthyglau ar y dolenni hyn BBC News – Welsh Water: Sewage dumped in waterways for 600,000 hours a BBC News – River pollution: Sewage spill prevention will hit water bills ac i chwilio am eitemau newyddion tebyg.

Gwahoddwch nhw i grynhoi eu syniadau a'u hymchwil ac i roi adborth i'r dosbarth sy'n cynnwys achosion o'r problemau a'r hyn sy'n cael ei wneud i ddod o hyd i atebion i'r problemau hyn.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Beth ydych chi'n ei wybod am garthffosiaeth a dŵr gwastraff yn cael eu rhyddhau i afonydd a'r môr? Sut ydych chi'n gwybod am y pethau hyn?
- Beth ddysgoch chi o'r ddwy stori newyddion y gwnaethoch chi edrych arnyn nhw?
- Beth yw'r prif broblemau gyda dŵr gwastraff a charthffosiaeth?
- Beth sy'n cael ei wneud i ddatrys y problemau hyn?
- Beth arall ellid ei wneud yn eich barn chi? Sut byddai hyn yn helpu?

# CYFLEOEDD I DDATBLYGU MEWN MANYLDER

## CWRICWLWM I GYMRU

**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:**

**Y Celfyddydau Mynegiannol**
- Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.
- Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

**Iechyd a Lles**
- Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.

**Y Dyniaethau**
- Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.
- Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**
- Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.
- Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.

**Mathemateg a Rhifedd**
- Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**
- Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.
- Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau.

**FfLIRh**

**Llythrennedd**
- **Gwrando:** Datblygu geirfa; Gwrando fel rhan o siarad cydweithredol.
- **Darllen:** Strategaethau darllen; Deall, ymateb a dadansoddi.
- **Siarad:** Eglurder a geirfa; Diben; Siarad cydweithredol; Gofyn cwestiynau.
- **Ysgrifennu:** Geirfa, sillafu, gramadeg; Cynllunio a threfnu ar gyfer gwahanol ddibenion, cynulleidfaoedd a chyd-destunau; Prawfddarllen, golygu a gwella.

**FfCD**
- **Dinasyddiaeth:** Hunaniaeth, delwedd ac enw da; Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth.
- **Rhyngweithio a chydweithio:** Cyfathrebu; Cydweithredu; Cyfnewid a rhannu gwybodaeth.
- **Cynhyrchu:** Cyrchu, chwilio a chynllunio cynnwys digidol; Creu cynnwys digidol; Gwerthuso a gwella cynnwys digidol.

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

# CWESTIYNAU FFOCWS A AWGRYMIR

| TASG 1 | |
| --- | --- |
| O ble mae'r dŵr a ddefnyddir yn fy nhŷ yn dod? | Meddyliwch am y dŵr rydych chi'n ei ddefnyddio gartref:<br>• O ble mae'r dŵr hwn yn dod? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• O ba ardal mae'n dod? Sut ydych chi'n gwybod? Ble mae hwn ar y map?<br>• Sut mae'r dŵr yn cael ei storio, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Sut mae'n mynd o'r fan honno i'ch cartref, yn eich barn chi? |

| TASG 2 | |
| --- | --- |
| Beth allwn ni ei ddarganfod am ein cyflenwad dŵr? | • Sut byddwch chi'n darganfod o ble mae'ch dŵr yn cael ei gyflenwi? Pam fyddwch chi'n ei wneud fel hyn?<br>• Beth ydych chi'n disgwyl ei ddarganfod? Pam?<br>• Yn eich barn chi, beth fydd y ffynhonnell wybodaeth orau? Pam?<br>• Ble mae'r adnodd dŵr ar y map? Sut wnaethoch chi ddod o hyd iddo?<br>• Pa wybodaeth fyddwch chi'n ei chynnwys ar eich ffeithlun? Pam? |

| TASG 3 | |
| --- | --- |
| Beth allwn ni ei ddarganfod am ein dŵr gwastraff? | • Ble ydych chi'n meddwl y mae'r dŵr gwastraff yn mynd ar ôl iddo adael eich cartref? Sut mae'r dŵr yn cyrraedd yno? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Beth ydych chi'n meddwl sy'n digwydd iddo yno? Pam?<br>• Beth sy'n digwydd i'r dŵr ar ôl hynny? Sut ydych chi'n gwybod? |


Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

| TASG 4 | |
|---|---|
| Sut mae taith y dŵr o'r gronfa ddŵr i'r gwaith trin dŵr yn rhan o'r gylchred ddŵr? | • Beth yw'r gylchred ddŵr? Sut ydych chi'n gwybod?<br>• Beth yw gwahanol rannau'r gylchred?<br>• Beth sy'n digwydd ym mhob rhan? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Pa ran o'r gylchred ddŵr yw eich tŷ chi a sut mae eich tŷ yn rhan o'r gylchred hon? Sut ydych chi'n gwybod? |

| TASG 5 | |
|---|---|
| Beth yw'r problemau posibl gyda dŵr gwastraff? | • Beth ydych chi'n ei wybod am garthffosiaeth a dŵr gwastraff yn cael eu rhyddhau i afonydd a'r môr? Sut ydych chi'n gwybod am y pethau hyn?<br>• Beth ddysgoch chi o'r ddwy stori newyddion y gwnaethoch chi edrych arnyn nhw?<br>• Beth yw'r prif broblemau gyda dŵr gwastraff a charthffosiaeth?<br>• Beth sy'n cael ei wneud i ddatrys y problemau hyn?<br>• Beth arall ellid ei wneud yn eich barn chi? Sut byddai hyn yn helpu? |

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

# GWEITHGAREDD 4: PAM FOD CAEL MYNEDIAD AT DDŴR GLÂN YN BWYSIG?

## TROSOLWG



Mae dysgwyr yn ystyried beth yw problemau mwyaf y byd ac yn archwilio 17 Nod Datblygu Cynaliadwy (NDC) y Cenhedloedd Unedig. Maent yn gosod y Nodau Datblygu Cynaliadwy yn nhrefn pwysigrwydd ac yn cyfiawnhau eu syniadau. Mae dysgwyr yn edrych yn agosach ar NDC 6 – Dŵr glân a glanweithdra.

Maent yn ystyried sut beth fyddai bywyd pe na byddai dŵr glân ar gael iddynt, yn rhannu syniadau am glip fideo ac yn datblygu cynllun i ddangos sut y gallent wneud dŵr mwdlyd yn lanach. Mae dysgwyr yn dilyn eu cynllun ac yn gwerthuso pa mor llwyddiannus oedden nhw. Yna, maen nhw'n myfyrio ar yr hyn y maen nhw wedi'i ddysgu ac yn creu fideo 30 eiliad o hyd am bwysigrwydd dŵr glân. Yn olaf, mae dysgwyr yn ystyried yr effaith a gafodd dŵr glân ar y tlawd yn Birmingham, ar ôl iddynt gael dŵr o Gwm Elan, gan dynnu llun stribed cartŵn i ddangos eu syniadau.

## CYFLEOEDD I DDATBLYGU

### CWRICWLWM I GYMRU

Meysydd dysgu a phrofiad:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae gweithgarwch hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn yr **FfLlRh** a'r **FfCD**.

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

## ADNODDAU SY'N CAEL EU CYNNWYS GYDA'R GWEITHGAREDD HWN

- Adnodd 1 – Cardiau didoli NDC
- Cwestiynau ffocws a awgrymir.

## ADNODDAU SYDD EU HANGEN I WNEUD Y GWEITHGAREDD HWN

- Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd
- Papur siart troi
- 1 botel dryloyw o ddŵr glân
- Ychydig o boteli tryloyw o ddŵr mwdlyd.

## DOLENNI DEFNYDDIOL

Anogwch y dysgwyr i chwilio am wybodaeth a chael gafael arni'n annibynnol, lle bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, gallai'r dolenni hyn fod yn ddefnyddiol ar gyfer rhai o'r tasgau.

- United Nations – Sustainable Development Goals launch in 2016
- World Vision – 20 litre challenge: Suzy versus Anyaka
- Vovacast – World vision dirty water (fideo YouTube)
- Unesco – SDG Resources for Educators - Clean Water and Sanitation
- Inspire Education – Victorians: the filthy rich and the filthy poor (fideo YouTube).

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau. Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored.
- Sicrhewch fod gan bob grŵp fynediad i ddyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd.
- Wrth wneud pob tasg, gellir rhoi'r cwestiynau ffocws a awgrymir i'r dysgwyr wrth iddynt ddechrau pob tasg neu gall yr athro eu defnyddio.

## TASG 1: BETH YW PROBLEMAU MWYAF Y BYD?

Gofynnwch i grwpiau bach o ddysgwyr feddwl beth yw'r problemau mwyaf sy'n wynebu'r byd ar hyn o bryd, a'u trafod. Gwahoddwch nhw i restru'r problemau ac i nodi'r broblem bwysicaf i'w datrys, yn eu barn nhw, gan rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Beth yw'r prif broblemau sy'n wynebu pobl yn y byd heddiw? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sut gallai'r problemau hyn effeithio arnoch chi yn y dyfodol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa rai o'r problemau hyn sydd bwysicaf i'w datrys? Pam?

## TASG 2: BETH YW NODAU DATBLYGU CYNALIADWY (NDC)?

Eglurwch wrth y dysgwyr fod y Cenhedloedd Unedig wedi cyflwyno set uchelgeisiol o nodau ar Ionawr 1af 2016 i gael gwared ar lu o faterion cymdeithasol erbyn 2030. Roedd y 17 Nod Datblygu Cynaliadwy (NDC) hyn yn cael eu hystyried fel rhestr o bethau i'w gwneud ar gyfer y bobl a'r blaned.

United Nations – Sustainable Development Goals launch in 2016.

Dywedwch wrth y dysgwyr mai dau o'r Nodau Datblygu Cynaliadwy hyn oedd:

- Dim newyn
- Bywyd o dan y dŵr.

Gofynnwch i grwpiau bach o ddysgwyr ystyried beth efallai yw'r 15 nod arall, ac yna i rannu eu syniadau. Yna, rhowch Adnodd 1 (Cardiau didoli NDC) i'r dysgwyr a gofynnwch iddyn nhw feddwl pa rai yw'r pwysicaf yn eu barn nhw, a thrafod hyn. Anogwch nhw i flaenoriaethu'r Nodau Datblygu Cynaliadwy a'u gosod yn nhrefn pwysigrwydd, er enghraifft, defnyddio grid rhestru diemwnt.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Yn eich barn chi, am beth mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy 'Dim newyn' a 'Bywyd o dan y dŵr' yn son? Pam?
- Beth allwn ni ei wneud i helpu i gyflawni'r ddwy nod hynny? Pam fyddai hyn yn helpu?
- Beth yn eich barn chi yw'r 15 NDC arall efallai? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa rai o'r 17 NDC yw'r rhai pwysicaf i ni eu cyflawni, yn eich barn chi? Pam?
- Beth allech chi ei wneud i helpu i gyflawni'r nodau hyn? Pam fyddai hyn yn helpu?

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

## TASG 3: BETH YDYN NI'N EI WYBOD AM NDC 6 – DŴR GLÂN A GLANWEITHDRA?

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod am edrych yn agosach ar NDC 6 – Dŵr glân a glanweithdra.

Gwahoddwch y dysgwyr i archwilio mewn ffordd ymarferol, sut olwg sydd ar 20 litr o ddŵr a pha mor drwm y gallai fod. Er enghraifft, gallech roi cynwysyddion 1L, 2L a 4L a ddefnyddir ar gyfer llaeth neu sudd i'r dysgwyr a gofyn iddynt fesur 20 litr.

Dangoswch y clip fideo ar y ddolen hon i'r dysgwyr: World Vision – 20 litre challenge: Suzy versus Anyaka. Gofynnwch iddynt feddwl am eu syniadau ynghylch yr hyn a welsant yn y clip, yna'u trafod a'u rhannu gyda'r dosbarth.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Beth yw eich barn am y clip fideo?
- Pa mor anodd fyddai cario 20 litr o ddŵr, yn eich barn chi?
- Pe byddai'n rhaid i chi wneud hyn bob dydd, sut gallai effeithio ar eich bywyd?
- Pa broblemau y gallai hyn eu hachosi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## TASG 4: PA MOR BWYSIG YW CAEL MYNEDIAD AT DDŴR GLÂN?



Gofynnwch i barau o ddysgwyr ystyried sut brofiad fyddai byw heb allu cael dŵr glân. Dangoswch y clip fideo iddynt ar y ddolen hon Vovacast – World vision dirty water (y cyfeirir ato yn Unesco – SDG Resources for Educators - Clean Water and Sanitation) a gofynnwch iddyn nhw rannu eu syniadau am y fideo.

Dangoswch ddwy botel dryloyw i'r dysgwyr, un yn cynnwys dŵr glân ac un yn cynnwys dŵr mwdlyd. Gwahoddwch grwpiau bach i greu cynllun i ddangos sut y gallen nhw wneud y dŵr mwdlyd yn lanach. Gallant wneud eu cynlluniau ar bapur siart troi, er enghraifft, fel y gellir gosod pob cynllun ar wal. Hefyd, gellid annog dysgwyr i edrych ar gynlluniau grwpiau eraill ac ychwanegu sylwadau gan ddefnyddio nodiadau gludiog i awgrymu sut y gellid gwella'r cynllun.

Yna, gellir rhoi potel o ddŵr mwdlyd i bob grŵp a gofyn iddynt ddilyn eu cynllun i 'lanhau'r' dŵr. Gallai dysgwyr roi adborth am ba mor llwyddiannus oeddent a sut y gallent wella'r broses pe byddent yn ei hailadrodd.

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Beth fyddai'r problemau i'ch teulu os mai dim ond dŵr budr fyddai ar gael i chi?
- Sut byddai hyn yn newid eich bywydau? Pam?
- Beth oedd eich barn chi am y clip fideo?
- Beth oedd prif neges y fideo i ni? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut ydych chi'n meddwl y gallech chi lanhau'r dŵr mwdlyd? Pam fyddai hyn yn gweithio?
- A yw eich cynllun yn un da? Pam?
- Beth oedd eich barn am y cynlluniau eraill y gwnaethoch chi edrych arnyn nhw? Pa un oedd y gorau? Pam?
- Pa mor llwyddiannus oeddech chi wrth lanhau'r dŵr mwdlyd?
- Beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf? Pam?

## TASG 5: BETH YDYN NI WEDI'I DDYSGU AM YR ANGEN AM DDŴR GLÂN?

Gofynnwch i grwpiau bach o ddysgwyr fyfyrio ar y tasgau maen nhw wedi'u cwblhau ac i feddwl beth maen nhw wedi'i ddysgu am yr angen am ddŵr glân, a thrafod hyn.



Os yn bosibl, byddai'n ddefnyddiol mynd â'r dysgwyr allan at y corff o ddŵr agosaf, e.e., pwll, nant, llyn mewn parc lleol, ac ati a gofyn iddynt ystyried sut y byddent yn cludo dŵr o'r ffynhonnell hon i'w cartref, os mai dyna'r unig ffynhonnell ddŵr fyddai ar gael iddynt.

Gwahoddwch grwpiau bach o ddysgwyr i gynllunio a chreu fideo 30 eiliad o hyd am bwysigrwydd dŵr glân. Anogwch drafodaethau am yr hyn sy'n gwneud clip fideo effeithiol ac atgoffa'r dysgwyr i gadw hyn mewn cof wrth gynllunio a chreu eu fideos.

Unwaith eto, gallai pob grŵp ddangos eu clip fideo a gallai eu cyfoedion roi adborth iddynt gan ddefnyddio'r strategaeth 'Beth aeth yn Dda' a 'Byddai hyd yn oed yn Well os...'.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Beth ydych chi wedi'i ddysgu am bwysigrwydd sicrhau bod dŵr glân ar gael i bobl? Sut wnaethoch chi ddysgu'r pethau hyn?
- Sut byddech chi'n symud dŵr o'r ffynhonnell i'ch cartref? Pam mai dyna fyddai'r ffordd orau? Pwy gafodd y syniad gorau? Pam?
- Beth sy'n gwneud clip fideo effeithiol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa negeseuon ydych chi am eu cyfleu yn eich fideo 30 eiliad o hyd? Pam?
- Sut byddwch chi'n gwneud hyn? Pam ei wneud fel hynny?

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

# TASG 6: SUT Y GWNAETH DŴR CWM ELAN 'ACHUB' BIRMINGHAM YN YSTOD Y CYFNOD FICTORAIDD?



Eglurwch wrth y dysgwyr fod y Chwyldro Diwydiannol wedi dechrau ym Mhrydain yn y 1700au a'i fod wedi achosi problemau niferus. Roedd pobl (gan gynnwys plant) yn dioddef amodau gwaith erchyll yn y ffatrïoedd a'r pyllau glo, gan gynnwys oriau hir o waith (cyfnod gwaith 12-16 awr), cyflogau isel a oedd brin yn talu costau byw, amodau peryglus a budr a gweithleoedd lle nad oedd gan y gweithiwr fawr o hawliau, os o gwbl. Yn ogystal, roeddent yn wynebu amodau byw yr un mor erchyll mewn trefi a dinasoedd diwydiannol, wedi'u nodweddu gan orlenwi, glanweithdra gwael, lledaeniad afiechydon, a llygredd.

Hefyd, rhowch wybod i'r dysgwyr fod Cyngor Dinas Birmingham wedi cael caniatâd brenhinol ym 1892 i wneud 'pryniad gorfodol' ar ddarn o dir yn ardal Elenydd. Roedd y tir hwn ar gyfer adeiladu cronfeydd dŵr, argaeau a gorsafoedd hidlo i gasglu, glanhau a chyfeirio dŵr yfed i Birmingham. Dangoswch y fideo hon i'r dysgwyr: Inspire Education – Victorians: the filthy rich and the filthy poor.

Gofynnwch i'r dysgwyr grynhoi eu bywyd mewn tlodi yn Birmingham yn y cyfnod Fictoraidd, ar ffurf stribed cartŵn yn dangos bywyd cyn cael dŵr glân a bywyd ar ôl cael mynediad at ddŵr glân.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Beth ydych chi wedi'i ddysgu am fywyd mewn tlodi yn oes Fictoria?
- Dychmygwch eich bod yn byw mewn tlodi yn Birmingham yn y cyfnod Fictoraidd:
    - Sut brofiad fyddai eich diwrnod, yn eich barn chi?
    - Pa fath o waith fyddech chi wedi'i wneud tybed? Pam?
    - Pa fathau o bethau fyddech chi wedi'u bwyta, efallai? Sut ydych chi'n gwybod?
    - Beth fyddech chi wedi'i yfed, efallai?
    - Faint o bobl fyddai wedi byw yn eich tŷ, efallai? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
    - Pa mor aml fyddech chi wedi ymolchi? Pam?
    - Beth fyddai wedi digwydd i'ch gwastraff toiled? Sut ydych chi'n gwybod?
    - Sut y byddai cael mynediad at ddŵr glân wedi newid eich bywyd, yn eich barn chi?

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

# MANYLION YNGHYLCH Y CYFLEOEDD I DDATBLYGU

## CWRICWLWM I GYMRU

**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:**

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

- Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.
- Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.
- Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

**Iechyd a Lles**

- Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.
- Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.

**Y Dyniaethau**

- Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd.
- Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.

**Mathemateg a Rhifedd**

- Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.

**FfLlRh**

**Llythrennedd**

- **Gwrando:** Datblygu geirfa; Gwrando fel rhan o siarad cydweithredol.
- **Darllen:** Strategaethau darllen; Deall, ymateb a dadansoddi.
- **Siarad:** Eglurder a geirfa; Diben; Siarad cydweithredol; Gofyn cwestiynau.
- **Ysgrifennu:** Geirfa, sillafu, gramadeg; Cynllunio a threfnu ar gyfer gwahanol ddibenion, cynulleidfaoedd a chyd-destunau; Prawfddarllen, golygu a gwella.

**FfCD**

- **Dinasyddiaeth:** Hunaniaeth, delwedd ac enw da; Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth.
- **Rhyngweithio a chydweithio:** Cydweithredu; Cyfnewid a rhannu gwybodaeth.
- **Cynhyrchu:** Cyrchu, chwilio a chynllunio cynnwys digidol; Creu cynnwys digidol; Gwerthuso a gwella cynnwys digidol.

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

# ADNODD 1

## CARDIAU DIDOLI NDC




Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

# CWESTIYNAU FFOCWS A AWGRYMIR

| **TASG 1** | |
|---|---|
| Beth yw problemau mwyaf y byd? | • Beth yw'r prif broblemau sy'n wynebu pobl yn y byd heddiw? Sut ydych chi'n gwybod?<br>• Sut gallai'r problemau hyn effeithio arnoch chi yn y dyfodol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Pa rai o'r problemau hyn sydd bwysicaf i'w datrys? Pam? |

| **TASG 2** | |
|---|---|
| Beth yw Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC)? | • Yn eich barn chi, am beth mae'r Nodau Datblygu Cynaliadwy 'Dim newyn' a 'Bywyd o dan y dŵr' yn son? Pam?<br>• Beth allwn ni ei wneud i helpu i gyflawni'r ddwy nod hynny? Pam fyddai hyn yn helpu?<br>• Beth yn eich barn chi yw'r 15 NDC arall efallai? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Pa rai o'r 17 NDC yw'r rhai pwysicaf i ni eu cyflawni, yn eich barn chi? Pam?<br>• Beth allech chi ei wneud i helpu i gyflawni'r nodau hyn? Pam fyddai hyn yn helpu? |

| **TASG 3** | |
|---|---|
| Beth ydyn ni'n ei wybod am NDC 6 – Dŵr glân a glanweithdra? | • Beth yw eich barn am y clip fideo?<br>• Pa mor anodd fyddai cario 20 litr o ddŵr, yn eich barn chi?<br>• Pe byddai'n rhaid i chi wneud hyn bob dydd, sut gallai effeithio ar eich bywyd?<br>• Pa broblemau y gallai hyn eu hachosi? Pam ydych chi'n meddwl hynny? |

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

## TASG 4

| | |
|---|---|
| Pa mor bwysig yw cael mynediad at ddŵr glân? | • Beth fyddai'r problemau i'ch teulu os mai dim ond dŵr budr fyddai ar gael i chi?<br>• Sut byddai hyn yn newid eich bywydau? Pam?<br>• Beth oedd eich barn chi am y clip fideo?<br>• Beth oedd prif neges y fideo i ni? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Sut ydych chi'n meddwl y gallech chi lanhau'r dŵr mwdlyd? Pam fyddai hyn yn gweithio?<br>• A yw eich cynllun yn un da? Pam?<br>• Beth oedd eich barn am y cynlluniau eraill y gwnaethoch chi edrych arnyn nhw? Pa un oedd y gorau? Pam?<br>• Pa mor llwyddiannus oeddech chi wrth lanhau'r dŵr mwdlyd?<br>• Beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf? Pam? |

## TASG 5

| | |
|---|---|
| Beth ydyn ni wedi'i ddysgu am yr angen am ddŵr glân? | • Beth ydych chi wedi'i ddysgu am bwysigrwydd sicrhau bod dŵr glân ar gael i bobl? Sut wnaethoch chi ddysgu'r pethau hyn?<br>• Sut byddech chi'n symud dŵr o'r ffynhonnell i'ch cartref? Pam mai dyna fyddai'r ffordd orau? Pwy gafodd y syniad gorau? Pam?<br>• Beth sy'n gwneud clip fideo effeithiol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Pa negeseuon ydych chi am eu cyfleu yn eich fideo 30 eiliad o hyd? Pam?<br>• Sut byddwch chi'n gwneud hyn? Pam ei wneud fel hynny? |

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

| TASG 6 | |
|---|---|
| Sut y gwnaeth dŵr Cwm Elan ‘achub’ Birmingham yn ystod y cyfnod Fictoraidd? | • Beth ydych chi wedi’i ddysgu am fywyd mewn tlodi yn oes Fictoria?<br>• Dychmygwch eich bod yn byw mewn tlodi yn Birmingham yn y cyfnod Fictoraidd:<br>- Sut brofiad fyddai eich diwrnod, yn eich barn chi?<br>- Pa fath o waith fyddech chi wedi’i wneud tybed? Pam?<br>- Pa fathau o bethau fyddech chi wedi’u bwyta, efallai? Sut ydych chi’n gwybod?<br>- Beth fyddech chi wedi’i yfed, efallai?<br>- Faint o bobl fyddai wedi byw yn eich tŷ, efallai? Pam ydych chi’n meddwl hynny?<br>- Pa mor aml fyddech chi wedi ymolchi? Pam?<br>- Beth fyddai wedi digwydd i’ch gwastraff toiled? Sut ydych chi’n gwybod?<br>- Sut y byddai cael mynediad at ddŵr glân wedi newid eich bywyd, yn eich barn chi? |

# GWEITHGAREDD 5: SUT MAE CREU CRONFEYDD DŴR?

## TROSOLWG



Mae dysgwyr yn ystyried beth yw cronfeydd dŵr a sut a pham y cânt eu ffurfio. Maent yn cymharu delweddau o gronfeydd dŵr yn fyd-eang, gan ymchwilio i un o'u dewis ac yna'n darganfod sut a pham y caiff cronfeydd dŵr eu creu, gan rannu eu canfyddiadau. Mae dysgwyr yn defnyddio mapiau ar-lein i ystyried pam a sut y cafodd cronfeydd dŵr Cwm Elan eu hadeiladu ac archwilio tystiolaeth am y 'Dyffrynoedd Coll'. Maent yn ystyried adeiladu Cwm Elan o safbwyntiau gwahanol randdeiliaid ac yn dadlau eu hachos yn unol â hynny. Mae'r dysgwyr yn cyrchu map stori sy'n amlinellu 'treftadaeth suddedig' Cwm Elan ac yn dilyn gwneud gwaith ymchwil, maent yn creu map stori sy'n dangos sut mae eu hardal leol wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf. Yn olaf, mae dysgwyr yn ystyried a yw cronfeydd dŵr yn dal i gael eu hadeiladu heddiw ac a yw'r un materion a safbwyntiau yn berthnasol o hyd o ran eu hadeiladu.

## CYFLEOEDD I DDATBLYGU

### CWRICWLWM I GYMRU

Meysydd dysgu a phrofiad:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae gweithgarwch hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn yr **FfLlRh** a'r **FfCD**.

## ADNODDAU SY'N CAEL EU CYNNWYS GYDA'R GWEITHGAREDD HWN

- Adnodd 1 - Grid O blaid ac Yn erbyn
- Adnodd 2 - Grid GESDGC
- Cwestiynau ffocws a awgrymir.

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

## ADNODDAU SYDD EU HANGEN I WNEUD Y GWEITHGAREDD HWN

- Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd
- Mapiau o'r ardal leol, os ydynt ar gael.

## DOLENNI DEFNYDDIOL

Anogwch y dysgwyr i chwilio am wybodaeth a chael gafael arni'n annibynnol, lle bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, gallai'r dolenni hyn fod yn ddefnyddiol ar gyfer rhai o'r tasgau.

- Google Maps
- Frontiers – Understanding Differences Between Lakes and Reservoirs
- Britannica – Reservoir
- National Geographic – Reservoir
- Cwm Elan – Cronfeydd ac Argaeau
- Cwm Elan – Adeiladu'r Argaeau
- Cwm Elan – Dyffrynoedd Coll
- ArcGIS StoryMaps – Submerged Heritage
- Oxford Mail – Homes could be lost because of new Thames Water reservoir - you have your say
- Derby Telegraph – New reservoir plans for Derbyshire as Severn Trent tries to supply water to growing population.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau. Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored.
- Sicrhewch fod gan bob grŵp fynediad i ddyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd.
- Wrth wneud pob tasg, gellir rhoi'r cwestiynau ffocws a awgrymir i'r dysgwyr wrth iddynt ddechrau pob tasg neu gall yr athro eu defnyddio.

## TASG 1: BETH YW CRONFA DDŴR?

Gofynnwch i barau o ddysgwyr ystyried beth yw cronfa ddŵr ac anogwch nhw i feddwl sut a pham mae cronfeydd dŵr yn cael eu ffurfio.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Beth yw cronfa ddŵr? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut olwg sydd ar gronfa ddŵr? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sut mae cronfeydd dŵr yn cael eu gwneud? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## TASG 2: BETH SYDD YN GYFFREDIN MEWN CRONFEYDD DŴR?

Gwahoddwch y dysgwyr i chwilio am ddelweddau o gronfeydd dŵr o bedwar ban byd, a chael mynediad atynt ar-lein. Anogwch nhw i nodi'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng cronfeydd dŵr ac i fwydo eu syniadau yn ôl i'r dosbarth.



Gofynnwch i'r dysgwyr wneud rhywfaint o waith ymchwil am un gronfa ddŵr o'u dewis a darganfod ystadegau amdani gan gynnwys pryd a pham y cafodd ei hadeiladu, sut y cafodd ei hadeiladu, pa mor fawr ydyw, ac ati.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Beth yw'r gwahaniaethau rhwng y cronfeydd dŵr yr ydych wedi dod i wybod amdanynt?
- Sut maen nhw'n debyg?
- Pa gronfa ddŵr ydych chi wedi dewis dod i wybod amdani? Pam?
- Beth ydych chi wedi'i ddarganfod am y gronfa ddŵr hon?
- Pam y cafodd ei hadeiladu? Pryd y cafodd ei hadeiladu?
- Sut y cafodd ei adeiladu? Pam?

## TASG 3: SUT A PHAM MAE CRONFEYDD DŴR YN CAEL EU CREU?

Gwahoddwch grwpiau bach o ddysgwyr i wneud gwaith ymchwil i ddarganfod sut a pham mae cronfeydd dŵr yn cael eu creu ac i rannu eu canfyddiadau.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol tynnu sylw at ddolenni fel Frontiers – Understanding Differences Between Lakes and Reservoirs, Britannica – Reservoir a National Geographic – Reservoir.

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

Gofynnwch i'r dysgwyr gwblhau tabl O blaid ac Yn erbyn (Adnodd 1) ar gyfer pwyso a mesur effeithiau cadarnhaol a negyddol creu cronfeydd dŵr.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Pam mae cronfeydd dŵr yn cael eu creu, yn eich barn chi?
- Pa wybodaeth ydych chi wedi dod o hyd iddi?
- Pwy sy'n penderfynu a ddylid creu cronfa ddŵr? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Ym mha ffyrdd gwahanol y mae cronfeydd dŵr yn cael eu creu? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa mor anodd yw creu cronfa ddŵr? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pwy sy'n cymryd rhan?
- Beth yw'r pethau cadarnhaol ynghylch creu cronfeydd dŵr? Pam fod y pethau hyn yn gadarnhaol?
- Beth yw'r pethau negyddol? Pam?

## TASG 4: PAM A SUT YR ADEILADWYD CWM ELAN?



Dangoswch Gwm Elan i'r dysgwyr ar fap digidol neu gwahoddwch nhw i gael mynediad at fap ar-lein a gofynnwch iddyn nhw ystyried pam maen nhw'n meddwl y cafodd Cwm Elan ei adeiladu i ffurfio'r gwahanol gronfeydd dŵr, gan gymryd adborth byr.

Gwahoddwch grwpiau bach i ddarganfod mwy ynghylch pam y cafodd Cwm Elan ei adeiladu. Darparwch gopi caled neu fersiwn digidol o Adnodd 2 (Grid GESDGC) i'r dysgwyr a gofynnwch iddynt ddefnyddio hwn yn strwythur i'w hymchwil. Anogwch y dysgwyr i fynd at y tudalennau Cronfeydd ac Argaeau ac Adeiladu'r Argaeau ar wefan Cwm Elan. Anogwch bob grŵp o ddysgwyr i archwilio'r wybodaeth y maent yn dod o hyd iddi yn drylwyr a gofynnwch i bob grŵp roi adborth am agwedd wahanol ar yr ymchwil. Er enghraifft, gallai grwpiau roi adborth ar pryd a sut y dechreuodd y gwaith; y pentref pwrpasol ar gyfer gweithwyr; y gwahanol gyfnodau adeiladu; y draphont ddŵr; argae suddedig y Garreg Ddu, ac ati.

Dylid cyfyngu'r amser ar gyfer rhoi adborth i un funud i bob grŵp, er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried sut i gyflwyno'r wybodaeth yn gryno.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Pam yr adeiladwyd argaeau Cwm Elan, yn eich barn chi?
- Sut fyddwch chi'n defnyddio'r Grid GESDGC ar gyfer eich ymchwil?
- Pa gwestiynau fyddwch chi'n eu gofyn? Pam?
- Sut byddwch chi'n chwilio am atebion i'ch cwestiynau?
- Beth wnaethoch chi ei ddarganfod am y cronfeydd dŵr a'r argaeau?
- Beth wnaeth eich synnu? Pam?
- Sut byddwch chi'n sicrhau mai dim ond munud o hyd yw eich adborth? Beth yw'r pethau pwysicaf i'w ddweud yn eich adborth? Pam?

## TASG 5: BETH YDYN NI'N EI FEDDWL AM Y 'DYFFRYNOEDD COLL'?



Gofynnwch i grwpiau bach o ddysgwyr fynd i dudalen Dyffrynoedd Coll ar wefan Cwm Elan, er mwyn treulio ychydig o funudau yn meddwl am yr wybodaeth a gyflwynwyd, a'i thrafod. Darparwch grynodeb byr o'r hyn sydd wedi'i archwilio hyd yma o fewn y tasgau, trwy ofyn i'r dysgwyr gyfrannu eu syniadau. Gallech chi gofnodi syniadau ar fwrdd gwyn, er enghraifft. Wrth wneud hyn, gallwch egluro bod y cronfeydd dŵr, yr argaeau a'r draphont ddŵr wedi'u hadeiladu dros ganrif yn ôl i gyflenwi dŵr glân yr oedd angen mawr amdano, i ddinas Birmingham. Roedd yn gamp beirianyddol anhygoel oedd yn ymwneud â miloedd o weithwyr, ond roedd yn golygu boddi rhai o'r dyffrynoedd ac achosi i bobl golli cartrefi a dioddef o ganlyniad.

Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod am iddyn nhw ffurfio grwpiau bach er mwyn cynrychioli rhanddeiliad gwahanol yn y broses o adeiladu cronfeydd dŵr ac argaeau Cwm Elan.

Er enghraifft, gallech gael pum grŵp yn cynrychioli'r rhanddeiliaid canlynol:

- Buddsoddwyr ariannol
- Cyngor Birmingham
- Y cwmni adeiladu
- Perchnogion tai a thrigolion lleol
- Pobl leol oedd yn ddi-waith.

Gwahoddwch bob grŵp i edrych ar adeiladu safle Cwm Elan o safbwynt eu grŵp eu hunain. Bydd angen dewis un aelod o bob grŵp i fod yn llais i'r grŵp, i fod yn barod i gyflwyno'r achos dros eu grŵp ac i ateb unrhyw gwestiynau gan y grwpiau eraill.

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Pa grŵp ydych chi'n ei gynrychioli?
- Pa wahaniaeth fydd adeiladu safle Cwm Elan yn ei wneud i chi? Pam?
- Beth yw manteision y prosiect? Sut mae'r rhain o fantais i chi?
- Beth yw'r problemau posibl gyda'r prosiect?
- Sut ydych chi'n teimlo am y materion hyn?

## TASG 6: BETH YDYN NI WEDI EI GOLLI YN LLEOL?



Eglurwch beth yw map stori wrth y dysgwyr a gofynnwch i'r grwpiau gael mynediad at fap stori'r Submerged Heritage Gwahoddwch nhw i feddwl a thrafod beth mae'r map yn ei ddangos, pa stori mae'n ei dweud a sut mae'n gwneud hyn. Anogwch nhw i rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

Gosodwch dasg y tu allan i'r ysgol i'r dysgwyr, er mwyn iddynt gasglu gwybodaeth gan deulu a ffrindiau am yr hyn sydd wedi'i golli yn yr ardal lle maen nhw'n byw ynddi neu o gwmpas yr ysgol. Gallen nhw drafod adeiladau, cymunedau, ieithoedd, diwylliant ac ati. Anogwch nhw i recordio rhai cyfweliadau ac i wneud nodiadau a chasglu tystiolaeth y gellir ei chymryd i'r ysgol a'i rhannu.

Pan fydd dysgwyr wedi rhannu eu gwybodaeth o fewn grwpiau, gellid eu hannog i rannu eu canfyddiadau gyda'r dosbarth cyfan a naill ai gael yr her o greu map stori grŵp neu o bosibl gydweithio i ddatblygu map stori dosbarth cyfan, er mwyn dangos sut mae eu hardal wedi newid dros amser. Gallant son am yr hyn sydd wedi ei golli a'r hyn a enillwyd.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- I bwy fyddwch chi'n gofyn am wybodaeth ynghylch sut mae eich ardal wedi newid? Pam gofyn i'r bobl hyn?
- Pwy fydd yn gwybod fwyaf? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa gwestiynau fyddwch chi'n eu gofyn iddyn nhw? Pam?
- Sut y byddwch yn sicrhau bod y cyfweliadau yn canolbwyntio ar adeiladau, cymunedau, ieithoedd a diwylliant?
- Sut byddwch chi'n cadw cofnod o'r wybodaeth y byddwch chi'n dod o hyd iddi?
- Pam byddai recordio pobl yn siarad yn syniad da?
- Sut byddwch chi'n defnyddio'r wybodaeth sydd gennych chi i greu map stori?

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

# TASG 7: A YDYN NI'N PARHAU I ADEILADU CRONFEYDD DŴR?



Gofynnwch i'r dysgwyr a ydyn nhw'n meddwl ein bod ni'n dal i adeiladu cronfeydd dŵr heddiw ac a oes eu hangen o hyd, gan drafod hyn. Gallen nhw rannu syniadau gyda'r dosbarth cyfan a gellid gofyn iddyn nhw egluro eu ffordd o feddwl.

Gwahoddwch grwpiau o ddysgwyr i gyrchu'r ddau adroddiad papur newydd canlynol, a'u darllen.

- Oxford Mail – Homes could be lost because of new Thames Water reservoir – you have your say
- Derby Telegraph – New reservoir plans for Derbyshire as Severn Trent tries to supply water to growing population

Anogwch y dysgwyr i ystyried a fyddai'r materion a'r dadleuon a ystyriwyd ganddynt yn y dasg 'Dyffrynoedd Coll' yn dal yn berthnasol heddiw, ac i rannu eu syniadau. Gwahoddwch nhw i ystyried sut byddai pob un o'r rhanddeiliaid yn teimlo am ddatblygiadau o'r fath ac i greu rhywbeth ar gyfer y cyhoedd a fyddai'n eu hargyhoeddi o'u syniadau. Er enghraifft, gallai dysgwyr greu poster, ysgrifennu llythyr at y cyngor lleol, gwneud podlediad ar gyfer radio lleol ac ati, sy'n nodi eu safbwynt.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- A yw adeiladu cronfeydd dŵr yn dal i ddigwydd heddiw, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pam fod angen cronfeydd dŵr arnom heddiw?
- Am beth oedd y ddwy erthygl papur newydd yn son?
- Beth sy'n wahanol am y datblygiadau hyn o gymharu â'r hyn a ddigwyddodd yng Nghwm Elan? Beth sy'n debyg?
- Sut fyddai pob un o'r rhanddeiliaid yn teimlo am ddatblygiadau o'r fath heddiw?
- Dychmygwch eich bod yn un o'r rhanddeiliaid. Beth allech chi ei greu i gefnogi eich barn? Beth fyddai'n argyhoeddi'r cyhoedd? Pam y byddai hyn yn eu hargyhoeddi?
- Sut byddwch chi'n datblygu eich syniadau? Beth allech chi ei gynhyrchu i ddangos eich syniadau?

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

# MANYLION YNGHYLCH Y CYFLEOEDD I DDATBLYGU

## CWRICWLWM I GYMRU

**Datganiadau o’r hyn sy’n bwysig:**

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

- Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.
- Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

**Iechyd a Lles**

- Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.
- Mae’r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a’n lles emosiynol.
- Mae’r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.
- Mae’r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a’n lles.

**Y Dyniaethau**

- Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a’i ddyfodol.
- Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a’u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.
- Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi’i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.
- Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw’n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.
- Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i’r afael â’r heriau a’r cyfleoedd sy’n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o’n hamgylch.
- Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.
- Mae llenyddiaeth yn tanio’r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd.

**Mathemateg a Rhifedd**

- Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu’r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.
- Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.
- Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau.
- Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd.

**FfLlRh**

**Llythrennedd**

- **Gwrando:** Datblygu geirfa; Gwrando fel rhan o siarad cydweithredol.
- **Darllen:** Strategaethau darllen; Deall, ymateb a dadansoddi.
- **Siarad:** Eglurder a geirfa; Diben; Siarad cydweithredol; Gofyn cwestiynau.
- **Ysgrifennu:** Geirfa, sillafu, gramadeg; Cynllunio a threfnu ar gyfer gwahanol ddibenion, cynulleidfaoedd a chyd-destunau; Prawfddarllen, golygu a gwella.

**FfCD**

- **Dinasyddiaeth:** Hunaniaeth, delwedd ac enw da; Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth.
- **Rhyngweithio a chydweithio:** Cyfathrebu; Cydweithredu; Cyfnewid a rhannu gwybodaeth.
- **Cynhyrchu:** Cyrchu, chwilio a chynllunio cynnwys digidol; Creu cynnwys digidol; Gwerthuso a gwella cynnwys digidol.

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

# ADNODD 1

## O BLAID AC YN ERBYN

| O BLAID | YN ERBYN |
|---|---|
| | |

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

# ADNODD 2

## GRID GESDGC

| G | E | S | D | G | C |
|---|---|---|---|---|---|
| **GWYBOD**<br>Dyma rwy'n ei **wybod** eisoes… | **EISIAU**<br>Dyma rwyf **eisiau** ei wybod … | **SUT**<br>**Sut** rwyf am ddarganfod hyn? | **DYSGU**<br>Beth rwyf wedi ei **ddysgu**? | **GWEITHREDU**<br>Sut y byddaf yn **gweithredu?** | **CWESTIYNAU**<br>Beth yw'r **cwestiynau** newydd sydd gen i? |
| | | | | | |

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

# CWESTIYNAU FFOCWS A AWGRYMIR

| TASG 1 | |
|---|---|
| Beth yw cronfa ddŵr? | • Beth yw cronfa ddŵr? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Sut olwg sydd ar gronfa ddŵr? Sut ydych chi'n gwybod?<br>• Sut mae cronfeydd dŵr yn cael eu gwneud? Pam ydych chi'n meddwl hynny? |

| TASG 2 | |
|---|---|
| Beth sydd yn gyffredin mewn cronfeydd dŵr? | • Beth yw'r gwahaniaethau rhwng y cronfeydd dŵr yr ydych wedi dod i wybod amdanynt?<br>• Sut maen nhw'n debyg?<br>• Pa gronfa ddŵr ydych chi wedi dewis dod i wybod amdani? Pam?<br>• Beth ydych chi wedi'i ddarganfod am y gronfa ddŵr hon?<br>• Pam y cafodd ei hadeiladu? Pryd y cafodd ei hadeiladu?<br>• Sut y cafodd ei adeiladu? Pam? |

| TASG 3 | |
|---|---|
| Sut a pham mae cronfeydd dŵr yn cael eu creu? | • Pam mae cronfeydd dŵr yn cael eu creu, yn eich barn chi?<br>• Pa wybodaeth ydych chi wedi dod o hyd iddi?<br>• Pwy sy'n penderfynu a ddylid creu cronfa ddŵr? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Ym mha ffyrdd gwahanol y mae cronfeydd dŵr yn cael eu creu? Sut ydych chi'n gwybod?<br>• Pa mor anodd yw creu cronfa ddŵr? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Pwy sy'n cymryd rhan?<br>• Beth yw'r pethau cadarnhaol ynghylch creu cronfeydd dŵr? Pam fod y pethau hyn yn gadarnhaol?<br>• Beth yw'r pethau negyddol? Pam? |

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

## TASG 4

| | |
|---|---|
| Pam a sut yr adeiladwyd Cwm Elan? | • Pam yr adeiladwyd argaeau Cwm Elan, yn eich barn chi?<br>• Sut fyddwch chi'n defnyddio'r Grid GESDGC ar gyfer eich ymchwil?<br>• Pa gwestiynau fyddwch chi'n eu gofyn? Pam?<br>• Sut byddwch chi'n chwilio am atebion i'ch cwestiynau?<br>• Beth wnaethoch chi ei ddarganfod am y cronfeydd dŵr a'r argaeau?<br>• Beth wnaeth eich synnu? Pam?<br>• Sut byddwch chi'n sicrhau mai dim ond munud o hyd yw eich adborth? Beth yw'r pethau pwysicaf i'w ddweud yn eich adborth? Pam? |

## TASG 5

| | |
|---|---|
| Beth ydyn ni'n ei feddwl am y 'dyffrynoedd coll'? | • Pa grŵp ydych chi'n ei gynrychioli?<br>• Pa wahaniaeth fydd adeiladu safle Cwm Elan yn ei wneud i chi? Pam?<br>• Beth yw manteision y prosiect? Sut mae'r rhain o fantais i chi?<br>• Beth yw'r problemau posibl gyda'r prosiect?<br>• Sut ydych chi'n teimlo am y materion hyn? |

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

## TASG 6

| | |
|---|---|
| Beth ydyn ni wedi ei golli yn lleol? | • I bwy fyddwch chi'n gofyn am wybodaeth ynghylch sut mae eich ardal wedi newid? Pam gofyn i'r bobl hyn?<br>• Pwy fydd yn gwybod fwyaf? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Pa gwestiynau fyddwch chi'n eu gofyn iddyn nhw? Pam?<br>• Sut y byddwch yn sicrhau bod y cyfweliadau yn canolbwyntio ar adeiladau, cymunedau, ieithoedd a diwylliant?<br>• Sut byddwch chi'n cadw cofnod o'r wybodaeth y byddwch chi'n dod o hyd iddi?<br>• Pam byddai recordio pobl yn siarad yn syniad da?<br>• Sut byddwch chi'n defnyddio'r wybodaeth sydd gennych chi i greu map stori? |

## TASG 7

| | |
|---|---|
| A ydyn ni'n parhau i adeiladu cronfeydd dŵr? | • A yw adeiladu cronfeydd dŵr yn dal i ddigwydd heddiw, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Pam fod angen cronfeydd dŵr arnom heddiw?<br>• Am beth oedd y ddwy erthygl papur newydd yn son?<br>• Beth sy'n wahanol am y datblygiadau hyn o gymharu â'r hyn a ddigwyddodd yng Nghwm Elan? Beth sy'n debyg?<br>• Sut fyddai pob un o'r rhanddeiliaid yn teimlo am ddatblygiadau o'r fath heddiw?<br>• Dychmygwch eich bod yn un o'r rhanddeiliaid. Beth allech chi ei greu i gefnogi eich barn? Beth fyddai'n argyhoeddi'r cyhoedd? Pam y byddai hyn yn eu hargyhoeddi?<br>• Sut byddwch chi'n datblygu eich syniadau? Beth allech chi ei gynhyrchu i ddangos eich syniadau? |

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

# GWEITHGAREDD 6: PAM EI BOD YN BWYSIG PEIDIO Â GWASTRAFFU DŴR?

## TROSOLWG



Mae dysgwyr yn ystyried rhesymau dros arbed dŵr ac yn penderfynu pa un sydd bwysicaf yn eu barn nhw. Maent yn amcangyfrif ac yn mesur metr ciwbig, yn coladu gwahanol weithgareddau sy'n defnyddio dŵr gartref, gan archwilio sawl gwaith y gellir gwneud pob gweithgaredd i ddefnyddio un metr ciwbig o ddŵr. Gan ddefnyddio adnoddau ar-lein, mae dysgwyr yn darganfod y gost o ddefnyddio metr ciwbig o ddŵr, gan amcangyfrif faint mae pob gweithgaredd yn ei gostio mewn blwyddyn. Maent yn cynllunio sut i weithio allan y gost, gan gasglu gwybodaeth gartref a datblygu amcangyfrifon ar gyfer y gost flynyddol. Mae dysgwyr yn ystyried pam mae pobl yn newid eu hymddygiad a sut y maen nhw'n gwneud hynny, cyn creu cynllun manwl o sut y gallent arbed dŵr gartref trwy newid ymddygiad ffrindiau a theulu. Yn olaf, mae dysgwyr yn gweithio ar y cyd i ddatblygu dyfais sy'n arbed dŵr.

## CYFLEOEDD I DDATBLYGU

### CWRICWLWM I GYMRU

Meysydd dysgu a phrofiad:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae gweithgarwch hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn yr **FfLlRh** a'r **FfCD**.

## ADNODDAU SY'N CAEL EU CYNNWYS GYDA'R GWEITHGAREDD HWN

- Adnodd 1 – Barn gwahanol bobl
- Adnodd 2 – Newid ymddygiad
- Cwestiynau ffocws a awgrymir.

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

## ADNODDAU SYDD EU HANGEN I WNEUD Y GWEITHGAREDD HWN

- Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd
- Enghraifft o fil trethi dŵr cartref, os yn bosibl.

## DOLENNI DEFNYDDIOL

Anogwch y dysgwyr i chwilio am wybodaeth a chael gafael arni'n annibynnol, lle bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, gallai'r dolenni hyn fod yn ddefnyddiol ar gyfer rhai o'r tasgau.

- Dŵr Cymru/Welsh Water
- Severn Trent Water
- Dŵr Cymru/Welsh Water - Esbonio biliau mesuredig
- Food and Agriculture Organization of the United Nations – Youth and United Nations Global Alliance (YUNGA)
- The Global Goals for Sustainable Development – Rohit Fenn, Bangalore India
- Roheit Fenn – Google Science Fair 2012: Summary (fideo YouTube).

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau. Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored.
- Sicrhewch fod gan bob grŵp fynediad i ddyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd.
- Wrth wneud pob tasg, gellir rhoi'r cwestiynau ffocws a awgrymir i'r dysgwyr wrth iddynt ddechrau pob tasg neu gall yr athro eu defnyddio.

## TASG 1: PAM Y DYLEN NI ARBED DŴR?

Bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr wedi cael eu hannog i beidio â gwastraffu dŵr.

Rhowch Adnodd 1 i grwpiau bach o ddysgwyr, naill ai'n ddigidol neu fel copi caled. Gwahoddwch nhw i ystyried y rhesymau dros arbed dŵr a geir yn y swigod siarad a phenderfynu pa reswm sydd bwysicaf yn eu barn nhw, gan esbonio pam mai hwn yw'r rheswm pwysicaf fel rhan o'u hadborth i'r dosbarth cyfan. Anogwch nhw i ychwanegu eu syniadau eu hunain ar ffurf swigod siarad pellach, os ydyn nhw'n gwneud awgrymiadau.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Pam ydych chi'n meddwl y dylen ni arbed dŵr?
- Barn pa berson ydych chi'n cytuno fwyaf â hi? Pam?
- A oes unrhyw rai nad ydych yn cytuno â nhw? Pam?
- Pa swigod siarad eraill fyddech chi'n eu hychwanegu? Pam?

## TASG 2: FAINT O DDŴR YW METR CIWBIG?



Eglurwch wrth y dysgwyr fod ein dŵr yn cael ei gyflenwi gan gwmnïau dŵr megis Dŵr Cymru/Welsh Water a Severn Trent Water.

Mae'r cwmnïau dŵr yn codi tâl ar bobl am y nifer o fetrau ciwbig ($m^3$) o ddŵr maen nhw'n ei ddefnyddio. Yn gyntaf, gofynnwch i grwpiau o ddysgwyr amcangyfrif pa mor hir yw metr ac yna i feddwl am faint 'metr ciwbig'. Anogwch y dysgwyr i ddangos ac egluro eu syniadau, cyn eu gwahodd i fesur metr ciwbig neu i ddefnyddio blociau neu focsys ac ati i adeiladu metr ciwbig, fel y gallant weld faint yw ei maint.

Gan ddefnyddio 'dim dwylo i fyny' (sy'n annog pawb i feddwl am ateb rhag ofn iddynt gael eu dewis), gofynnwch i'r dysgwyr enwi gwahanol weithgareddau sy'n defnyddio dŵr yn y cartref a choladu rhestr, e.e. cael bath, fflysio'r tŷ bach, cael diodydd o ddŵr, cael cawod, golchi llwyth yn y peiriant golchi, ac ati. Gwahoddwch nhw i amcangyfrif sawl gwaith y gellir gwneud pob gweithgaredd i ddefnyddio un metr ciwbig o ddŵr.

Gallech chi roi syniad bras o'r atebion i'r dysgwyr ar ôl iddyn nhw gynnig eu hamcangyfrifon. Cael bath – 12; cael cawod – 28, 12 llwyth o olchi, fflysio'r tŷ bach 12 gwaith a thua 3,000 gwydraid o ddŵr neu gwpanau o de/coffi.

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Sut olwg oedd ar fetr ciwbig? A oedd yn fwy neu'n llai nag yr oeddech chi'n ei ddisgwyl? Pam?
- I beth ydych chi'n defnyddio dŵr gartref?
- Sawl gwaith allech chi gael bath/cawod cyn defnyddio metr ciwbig ($m^3$) o ddŵr? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sawl gwydraid o ddŵr neu gwpanaid o de/coffi y gellid ei yfed? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sawl gwaith y gellid defnyddio'r peiriant golchi? Sut wnaethoch chi weithio allan hynny?
- Pa un o'r atebion wnaeth eich synnu fwyaf? Pam?

## TASG 3: FAINT MAE'N EI GOSTIO I DDEFNYDDIO DŴR?



Gofynnwch i'r dysgwyr fynd i wefan yr awdurdod dŵr sy'n cyflenwi eu cartref a chanfod faint mae'n ei godi am ddefnyddio metr ciwbig ($1m^3$) o ddŵr.

- Dŵr Cymru/Welsh Water - Esbonio biliau mesuredig
- Severn Trent Water.

**Sylwer, os gwelwch yn dda:** At ddiben y dasg hon, efallai y byddai'n haws defnyddio dolen Dŵr Cymru/Welsh Water, gan fod hwn hefyd yn darparu fideo defnyddiol sy'n dangos sut y caiff dŵr ei gyflenwi a'i dynnu a sut mae'n rhan o'r gylchred ddŵr – mae'r taliadau hefyd yn haws i'w deall na thaliadau Severn Trent.

Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod chi am iddyn nhw amcangyfrif faint mae pob un o'r gweithgareddau sy'n defnyddio dŵr a restrwyd yn gynharach yn y dasg, yn ei gostio mewn blwyddyn. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen iddynt weithio allan sawl gwaith mae pobl yn gwneud y canlynol yn eu cartref mewn blwyddyn: cael cawod, cael bath, fflysio tŷ bach, golchi llwyth yn y peiriant golchi a gwneud cwpan o de neu goffi.

Gwahoddwch grwpiau o ddysgwyr i gynllunio sut y byddant yn gweithio allan y costau, pa wybodaeth y bydd ei hangen arnynt a sut i gael yr wybodaeth honno. Rhowch ychydig ddyddiau iddynt ofyn cwestiynau i'r teulu a chasglu gwybodaeth, cyn gofyn iddynt ddatblygu eu hamcangyfrifon yn y dosbarth a gweithio allan y costau yn fras.

Codir tâl ar yr holl ddŵr a aiff drwy fesurydd ('metered water') megis dŵr i mewn + dŵr allan. Ar gyfer Dŵr Cymru/Welsh Water, y tâl ar hyn o bryd yw £1.4526 + £1.9534 = £3.406 y metr ciwbig.

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

Bydd angen i ddysgwyr gyfrifo faint o gawodydd y mae pob person yn eu tŷ yn ei gymryd mewn wythnos a'u adio at ei gilydd er mwyn cael cyfanswm. Byddai hwn wedyn yn cael ei luosi â 52 er mwyn cael y cyfanswm blynyddol a wedyn rhannu'r cyfanswm â 28, gan mai dyma mae'r cwmni dŵr yn ei awgrymu yw nifer y cawodydd y gellir eu cymryd fesul metr ciwbig o ddŵr. Byddai'r ateb terfynol wedyn yn cael ei luosi â £3.406 i gael amcangyfrif o'r gost flynyddol.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Faint o arian fydd y cwmni dŵr yn ei godi am fetr ciwbig o ddŵr, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth ddysgoch chi o'r fideo ar wefan y cwmni dŵr?
- Sut byddwch chi'n amcangyfrif sawl cawod/bath a gymerir yn eich cartref mewn blwyddyn? Pa wybodaeth fydd ei hangen arnoch chi? Pam? Sut y byddwch yn casglu'r wybodaeth honno?
- Pan fyddwch chi'n gwybod hyn, sut byddwch chi'n cyfrifo sawl metr ciwbig o ddŵr yw hyn?
- Sut byddwch chi'n amcangyfrif y gost? Pam ei hamcangyfrif fel hynny?
- Sut byddwch chi'n amcangyfrif sawl llwyth a olchwyd mewn peiriant golchi neu sawl gwaith gafodd y tŷ bach ei fflysio?
- Beth fydd y gweithgaredd anoddaf i'w amcangyfrif? Pam? Sut byddwch chi'n ei wneud? Pam felly?

## TASG 4: SUT GALLWN NI BERSWADIO POBL I DDEFNYDDIO LLAI O DDŴR?

Rhowch enghraifft i'r dysgwyr o sut mae rhywun wedi ceisio newid eich ymddygiad mewn rhyw ffordd. Er enghraifft, bod yn daclusach o gwmpas y tŷ, treulio llai o amser ar-lein neu fod ar amser yn amlach.



Gofynnwch i barau o ddysgwyr feddwl am enghreifftiau o adegau pan fydd pobl yn ceisio eu perswadio i newid eu hymddygiad, a thrafod hyn. Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro pam mae pobl am iddyn nhw newid eu hymddygiad, yn eu barn nhw.

Eglurwch wrth y dysgwyr fod y dasg hon yn ymwneud â chreu cynllun manwl o sut y gallent arbed dŵr y neu cartref trwy hybu ffrindiau a theulu i wneud newidiadau yn eu hymddygiad.

Rhannwch y dysgwyr yn bum grŵp a rhowch Adnodd 2 iddynt, naill ai'n ddigidol neu ar ffurf copi caled.

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

Arweiniwch y dysgwyr drwy ran gyntaf y daflen, gan egluro bod llawer o'n problemau byd-eang yn digwydd o ganlyniad i ymddygiad dynol, ac er mwyn datrys y problemau hyn, bydd angen i bobl newid eu hymddygiad. Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y syniadau hyn ac i rannu eu meddyliau.

Dywedwch wrth y dysgwyr fod Adnodd 2 yn amlinellu pum ffordd wahanol y gallwn ni hybu newid ymddygiad. Gofynnwch i'r grwpiau ddarllen pob un o'r pum ffordd fel bod ganddyn nhw ddarlun cyffredinol, cyn neilltuo un o'r ffyrdd o newid ymddygiad, i bob grŵp.

Gwahoddwch bob grŵp i ystyried y 'ffordd' a roddwyd iddynt ac i wneud rhestr o awgrymiadau ynghylch sut y gallent roi hyn ar waith gyda'u teulu a'u ffrindiau. Gofynnwch i bob grŵp rannu eu syniadau gyda'r dosbarth, gan alluogi adborth a thrafodaeth.

Gwahoddwch ddysgwyr unigol i ystyried yr holl syniadau maen nhw wedi'u cwmpasu hyd yma yn y dasg ac i ddatblygu cynllun manwl o sut y byddan nhw'n annog eu teulu a'u ffrindiau i newid eu hymddygiad i arbed dŵr. Anogwch nhw i ddefnyddio pob un o'r pum ffordd o newid ymddygiad a amlinellir yn Adnodd 2.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Pryd wnaeth rhywun geisio'ch perswadio chi i newid rhai o'r pethau rydych chi'n eu gwneud? Sut wnaethon nhw hynny? A wnaeth hyn weithio? Pam?
- Pam roedden nhw am i chi newid yr hyn roeddech chi'n ei wneud? A oedd hyn yn deg? Pam?
- Sut mae rhai problemau byd-eang yn cael eu hachosi gan ein hymddygiad? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth fydd yn rhaid digwydd os ydyn ni am ddatrys y problemau hyn?
- Beth yw eich barn am y ffyrdd o newid ymddygiad a awgrymir? Pam?
- Ydych chi'n meddwl y byddan nhw'n gweithio? Pam?
- Pa ffordd o newid ymddygiad a roddwyd i'ch grŵp? Beth fyddwch chi'n ei awgrymu ar gyfer sut y gallech chi ddefnyddio hwn gyda ffrindiau a theulu?
- Sut byddwch chi'n creu cynllun manwl i newid ymddygiad ffrindiau a theulu, fel eu bod yn defnyddio llai o ddŵr?
- Beth fyddwch chi'n ei gynnwys yn y cynllun? Pam? Pa beth sydd fwyaf tebygol o weithio? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

# TASG 5: BETH ALLWN NI EI DDYFEISIO I ARBED DŴR?



Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw yn gweithio mewn grwpiau yn y dasg hon i ddatblygu dyfais sy'n arbed dŵr. I ddechrau, gwahoddwch nhw i restru mewn trefn, y ffyrdd gwahanol y mae'r mwyaf o ddŵr yn cael ei ddefnyddio mewn bywyd bob dydd yn eu tyb nhw, gartref ac yn yr ysgol.

Gofynnwch i'r dysgwyr gyrchu a darllen yr erthygl ar y ddolen hon – The Global Goals for Sustainable Development – Rohit Fenn, Bangalore India ac i adrodd eu meddyliau am ei ddyfais.

Gallech hefyd ofyn iddynt gael mynediad at glip fideo o Rohit yn esbonio ei ddyfais ar y ddolen hon – Roheit Fenn – Google Science Fair 2012: Summary.

Gosodwch her i'r dysgwyr greu dyfais a fydd yn ein helpu i ddefnyddio llai o ddŵr nag yr ydym yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Gellir rhoi amser i bob grŵp wneud cyflwyniad o'u dyfais, a gellid cynnwys lluniau, disgrifiadau neu hyd yn oed brototeip neu fodel o'r ddyfais, os yn bosibl.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Pryd fyddwn ni'n defnyddio'r mwyaf o ddŵr? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Ym mha ffyrdd eraill rydyn ni'n defnyddio llawer o ddŵr?
- Beth oedd eich barn chi am ddyfais tŷ bach Rohit? Pam?
- Pa bethau eraill allwn ni eu dyfeisio i arbed dŵr?
- Beth fydd eich grŵp yn ei ddatblygu fel dyfais? Pam?
- Sut bydd hyn yn arbed dŵr?
- Sut byddwch chi'n cyflwyno'ch dyfais? Pam?

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

# MANYLION YNGHYLCH Y CYFLEOEDD I DDATBLYGU

## CWRICWLWM I GYMRU

**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:**

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

- Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.
- Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.
- Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

**Iechyd a Lles**

- Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.
- Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.
- Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.

**Mathemateg a Rhifedd**

- Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.
- Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.
- Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.
- Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.
- Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.
- Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau.
- Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd.

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

**FfLlRh**

**Llythrennedd**

- **Gwrando:** Datblygu geirfa; Gwrando fel rhan o siarad cydweithredol.
- **Darllen:** Strategaethau darllen; Deall, ymateb a dadansoddi.
- **Siarad:** Eglurder a geirfa; Diben; Siarad cydweithredol; Gofyn cwestiynau.
- **Ysgrifennu:** Geirfa, sillafu, gramadeg; Cynllunio a threfnu ar gyfer gwahanol ddibenion, cynulleidfaoedd a chyd-destunau; Prawfddarllen, golygu a gwella.

**FfCD**

- **Dinasyddiaeth:** Hunaniaeth, delwedd ac enw da; Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth.
- **Rhyngweithio a chydweithio:** Cyfathrebu; Cydweithredu; Cyfnewid a rhannu gwybodaeth.
- **Cynhyrchu:** Cyrchu, chwilio a chynllunio cynnwys digidol; Creu cynnwys digidol; Gwerthuso a gwella cynnwys digidol.

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

# ADNODD 1

## BARN GWAHANOL BOBL




Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

# ADNODD 2

## NEWID YMDDYGIAD

Mae angen i bobl gredu y gallant wneud gwahaniaeth yn y byd.

Mae llawer o broblemau cymdeithasol ac amgylcheddol yn cael eu hachosi gan ymddygiad dynol afiach neu anghynaliadwy.

Er mwyn helpu i ddatrys y problemau hyn, mae angen i'r rhan fwyaf o bobl newid neu addasu eu hymddygiad.

Mae'n amlwg nad yw codi ymwybyddiaeth yn ddigon i newid ymddygiad.

Felly, beth allwn ni ei wneud?

Mae sawl ffordd o hybu newid ymddygiad.

Sut gallwn ni wneud defnydd o'r rhain?:

**Canolbwyntiwch ar newid ymddygiad penodol, cyraeddadwy**

Blaenoriaethwch weithgareddau sy'n targedu newid ymddygiad clir a phenodol iawn (e.e. 'cau'r tap wrth frwsio eich dannedd' yn hytrach nag 'arbed dŵr').

**Herio ymddygiad presennol a mynd i'r afael â rhwystrau i weithredu**

Anogwch bobl i edrych ar eu hymddygiad presennol a meddwl sut y gellid ei newid. Mae gan bawb esgusodion ynghylch pam nad ydyn nhw'n ymddwyn mewn ffordd arbennig: diffyg amser, diffyg arian, ddim yn gwybod beth i'w wneud ... mae'r rhestr yn ddiddiwedd.

Anogwch bobl i leisio'r esgusodion hyn ac yna darganfod ffyrdd i'w hosgoi.

**Gwnewch ymrwymiad cyhoeddus**

Mae pobl yn llawer mwy tebygol o wneud rhywbeth os ydynt yn cytuno i'w wneud o flaen tystion neu'n gwneud datganiad ysgrifenedig – beth am fanteisio ar hyn?

**Monitro newid a dathlu llwyddiant**

Mae newid ymddygiad yn waith caled! Ailymwelwch â thasgau yn rheolaidd i fonitro cyflawniad a gwobrwyo llwyddiant parhaus mewn ffordd briodol.

**Arwain trwy esiampl**

Mae teulu a ffrindiau yn eich parchu, yn poeni am yr hyn rydych chi'n ei feddwl ac eisiau eich gwneud chi'n falch. Os ydych chi am iddyn nhw gofleidio'r ymddygiad rydych chi'n ei annog, yna mae'n rhaid i chi arwain trwy esiampl a gwneud y newidiadau hynny eich hun.

Mae'r syniadau a ddefnyddir yn y daflen Adnoddau hon yn seiliedig ar syniadau o'r Youth and United Nations Global Alliance (YUNGA) Water Challenge Badge.

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

# CWESTIYNAU FFOCWS A AWGRYMIR

| TASG 1 | |
|---|---|
| Pam y dylen ni arbed dŵr? | • Pam ydych chi'n meddwl y dylen ni arbed dŵr?<br>• Barn pa berson ydych chi'n cytuno fwyaf â hi? Pam?<br>• A oes unrhyw rai nad ydych yn cytuno â nhw? Pam?<br>• Pa swigod siarad eraill fyddech chi'n eu hychwanegu? Pam? |

| TASG 2 | |
|---|---|
| Faint o ddŵr yw metr ciwbig? | • Sut olwg oedd ar fetr ciwbig? A oedd yn fwy neu'n llai nag yr oeddech chi'n ei ddisgwyl? Pam?<br>• I beth ydych chi'n defnyddio dŵr gartref?<br>• Sawl gwaith allech chi gael bath/cawod cyn defnyddio metr ciwbig (m3) o ddŵr? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Sawl gwydraid o ddŵr neu gwpanaid o de/coffi y gellid ei yfed? Sut ydych chi'n gwybod?<br>• Sawl gwaith y gellid defnyddio'r peiriant golchi? Sut wnaethoch chi weithio allan hynny?<br>• Pa un o'r atebion wnaeth eich synnu fwyaf? Pam? |

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

| TASG 3 | |
| --- | --- |
| Faint mae’n ei gostio i ddefnyddio dŵr? | • Faint o arian fydd y cwmni dŵr yn ei godi am fetr ciwbig o ddŵr, yn eich barn chi? Pam ydych chi’n meddwl hynny?<br>• Beth ddysgoch chi o’r fideo ar wefan y cwmni dŵr?<br>• Sut byddwch chi’n amcangyfrif sawl cawod/bath a gymerir yn eich cartref mewn blwyddyn? Pa wybodaeth fydd ei hangen arnoch chi? Pam? Sut y byddwch yn casglu’r wybodaeth honno?<br>• Pan fyddwch chi’n gwybod hyn, sut byddwch chi’n cyfrifo sawl metr ciwbig o ddŵr yw hyn?<br>• Sut byddwch chi’n amcangyfrif y gost? Pam ei hamcangyfrif fel hynny?<br>• Sut byddwch chi’n amcangyfrif sawl llwyth a olchwyd mewn peiriant golchi neu sawl gwaith gafodd y tŷ bach ei fflysio?<br>• Beth fydd y gweithgaredd anoddaf i’w amcangyfrif? Pam? Sut byddwch chi’n ei wneud? Pam felly? |

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

| TASG 4 | |
|---|---|
| Sut gallwn ni berswadio pobl i ddefnyddio llai o ddŵr? | • Pryd wnaeth rhywun geisio'ch perswadio chi i newid rhai o'r pethau rydych chi'n eu gwneud? Sut wnaethon nhw hynny? A wnaeth hyn weithio? Pam?<br>• Pam roedden nhw am i chi newid yr hyn roeddech chi'n ei wneud? A oedd hyn yn deg? Pam?<br>• Sut mae rhai problemau byd-eang yn cael eu hachosi gan ein hymddygiad? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Beth fydd yn rhaid digwydd os ydyn ni am ddatrys y problemau hyn?<br>• Beth yw eich barn am y ffyrdd o newid ymddygiad a awgrymir? Pam?<br>• Ydych chi'n meddwl y byddan nhw'n gweithio? Pam?<br>• Pa ffordd o newid ymddygiad a roddwyd i'ch grŵp? Beth fyddwch chi'n ei awgrymu ar gyfer sut y gallech chi ddefnyddio hwn gyda ffrindiau a theulu?<br>• Sut byddwch chi'n creu cynllun manwl i newid ymddygiad ffrindiau a theulu, fel eu bod yn defnyddio llai o ddŵr?<br>• Beth fyddwch chi'n ei gynnwys yn y cynllun? Pam? Pa beth sydd fwyaf tebygol o weithio? Pam ydych chi'n meddwl hynny? |

| TASG 5 | |
|---|---|
| Beth allwn ni ei ddyfeisio i arbed dŵr? | • Pryd fyddwn ni'n defnyddio'r mwyaf o ddŵr? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Ym mha ffyrdd eraill rydyn ni'n defnyddio llawer o ddŵr?<br>• Beth oedd eich barn chi am ddyfais tŷ bach Rohit? Pam?<br>• Pa bethau eraill allwn ni eu dyfeisio i arbed dŵr?<br>• Beth fydd eich grŵp yn ei ddatblygu fel dyfais? Pam?<br>• Sut bydd hyn yn arbed dŵr?<br>• Sut byddwch chi'n cyflwyno'ch dyfais? Pam? |

# GWEITHGAREDD 7: SUT YDYN NI'N CAEL EFFAITH AR EIN HAMGYLCHEDD?

## TROSOLWG



Mae'r dysgwyr yn ystyried sut mae pethau o'u cwmpas wedi newid, y rhesymau posibl am y newidiadau hyn a'r hyn a olygwn wrth 'ddatblygiad newydd'. Maen nhw'n archwilio'r ardal leol i nodi lleoedd neu ofodau lle gallai datblygiad newydd ddigwydd, gan ystyried pa effeithiau y gallai datblygiad o'r fath ei gael ar bethau byw yn yr amgylchedd hwnnw a chreu adroddiad amgylcheddol i ddangos sut yr effeithir ar yr ardal. Mae dysgwyr yn ystyried sut mae eu hamgylchedd hanesyddol lleol wedi'i gadw, trwy ddefnyddio mapiau, offer ar-lein a gwaith maes. Maen nhw'n archwilio amgylchedd Cwm Elan, gan bwyso a mesur pam mae angen gofalu am yr ardal hon a'i diogelu ac ystyried sut y gallai bodau dynol fod yn risg i'r ardal. Yn olaf, mae'r dysgwyr yn myfyrio ar y tasgau maen nhw wedi'u cwblhau, gan greu poster yn amlygu pwysigrwydd Cwm Elan i ymwelwyr a'u hannog i warchod yr amgylchedd naturiol a hanesyddol.

## CYFLEOEDD I DDATBLYGU

### CWRICWLWM I GYMRU

Meysydd dysgu a phrofiad:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae gweithgarwch hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn yr **FfLlRh** a'r **FfCD**.

## ADNODDAU SY'N CAEL EU CYNNWYS GYDA'R GWEITHGAREDD HWN

- Adnodd 1 – Si-so blaenoriaeth
- Cwestiynau ffocws a awgrymir.

## ADNODDAU SYDD EU HANGEN I WNEUD Y GWEITHGAREDD HWN

- Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd
- Mapiau o'r ardal leol, os ydynt ar gael.

## DOLENNI DEFNYDDIOL

Anogwch y dysgwyr i chwilio am wybodaeth a chael gafael arni'n annibynnol, lle bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, gallai'r dolenni hyn fod yn ddefnyddiol ar gyfer rhai o'r tasgau.

- Google Maps
- Cymru Hanesyddol
- Historic England
- Cwm Elan.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau. Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored.
- Bydd y ffordd y byddwch yn mynd i'r afael â Thasg 1 yn dibynnu ar leoliad eich ysgol mewn perthynas â Chwm Elan, a dylid mynd i'r afael â'r dasg yn unol â hynny.
- Sicrhewch fod gan bob grŵp fynediad i ddyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd.
- Wrth wneud pob tasg, gellir rhoi'r cwestiynau ffocws a awgrymir i'r dysgwyr wrth iddynt ddechrau pob tasg neu gall yr athro eu defnyddio.

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

## TASG 1: SUT MAE PETHAU O'N CWMPAS WEDI NEWID?

Gofynnwch i barau o ddysgwyr ystyried sut mae pethau o'u cwmpas wedi newid, cyn belled ag y gallant gofio. Efallai y byddan nhw'n cael eu hannog i feddwl am y tu mewn a'r tu allan i'w cartref, yr ardal lle maen nhw'n byw, y daith i'r ysgol, yr ysgol a'i thiroedd, ac ati.

Anogwch y dysgwyr i ystyried y rhesymau dros y newidiadau hyn a phwy neu beth sydd efallai yn gyfrifol am y newidiadau.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Pa newidiadau ydych chi wedi sylwi arnynt o'ch cwmpas yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf?
- Sut mae eich cartref wedi newid? Pam?
- Sut mae'r tu allan i'ch cartref a'r ardal ger eich cartref wedi newid? Pam? Pwy neu beth oedd y rheswm am y newidiadau?
- Sut mae'r ysgol wedi newid ers i chi fod ynddi? Pam?
- Sut mae tiroedd yr ysgol wedi newid? Pam y gwnaed y newidiadau hyn? Pwy wnaeth y newidiadau?
- Sut mae'r ardal o amgylch yr ysgol wedi newid?

## TASG 2:  SUT BYDDAI DATBLYGIAD NEWYDD YN NEWID YR AMGYLCHEDD?



Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl beth a olygir wrth 'ddatblygiad newydd' yn ein hardal leol, gan drafod hyn a rhannu eu syniadau. Sicrhewch fod y dysgwyr yn deall y gallai datblygiad olygu newid yn yr isadeiledd, megis ffordd newydd neu adeilad newydd fel archfarchnad ac ati.

Ewch â'r dysgwyr am dro o amgylch yr ardal sy'n lleol i'r ysgol a'u gwahodd i nodi lleoedd neu ofodau lle gallai datblygiad newydd ddigwydd. Gallai hyn fod yn ddarn o dir gwastraff, parc lleol, siopau gwag neu dai, ac ati. Gwahoddwch nhw i ystyried pa effaith y gallai datblygiad newydd ei gael ar bethau byw yn yr amgylchedd hwnnw. Gallent nodi'r planhigion a'r anifeiliaid sy'n byw yno, gan ganfod gwybodaeth am y rhain. Gallent hefyd ystyried y cartrefi a allai gael eu heffeithio.

Eglurwch wrth y dysgwyr fod yn rhaid cyhoeddi adroddiad amgylcheddol ynghlwm wrth unrhyw ddatblygiad mawr, er mwyn dangos sut yr effeithir ar yr ardal. Gwahoddwch y dysgwyr i greu adroddiad amgylcheddol ar gyfer y lle neu'r gofod mae'n nhw wedi ei ddewis. Gallent gynnwys ffotograffau, darlunio cadwyni bwyd a allai gael eu heffeithio, ystyried sut y gallai fod angen diweddaru isadeiledd, ac ati.

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Beth yw ystyr 'datblygiad newydd' yn yr ardal leol, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa ddatblygiadau newydd a gafwyd yn ddiweddar? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sut oedd pobl yn ymateb i'r datblygiadau hyn? Pam?
- Pa ofodau neu leoedd wnaethoch chi ddod o hyd iddynt, lle gallai datblygiad newydd ddigwydd? Pam ydych chi'n meddwl bod hwn yn ofod neu le da ar gyfer datblygiad?
- Beth sy'n byw yn yr ardal hon? Pa blanhigion ac anifeiliaid wnaethoch chi ddod o hyd iddynt? Beth allai ddigwydd iddyn nhw? Pam?
- Sut byddai pobl leol yn cael eu heffeithio? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- A fyddai angen adeiladu mwy o ffyrdd? Pam?
- Beth fyddwch chi'n ei gynnwys yn eich adroddiad amgylcheddol? Pam?

## TASG 3: SUT YDYN NI WEDI CADW EIN HAMGYLCHEDD HANESYDDOL?



Eglurwch wrth y dysgwyr ein bod ni fel cymdeithas, fel arfer yn ceisio gofalu am ein lleoedd a'n pethau hanesyddol mwyaf gwerthfawr. Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried pa safleoedd, adeiladau a henebion hanesyddol lleol y maen nhw'n gwybod amdanyn nhw, ac yna i rannu eu syniadau.

Mae'r dolenni canlynol yn rhoi mynediad i'r dysgwyr at fapiau o'r man ble maen nhw'n byw ynddo a ble mae'r ysgol wedi'i lleoli. Gellir defnyddio'r mapiau hyn i ddod o hyd i enghreifftiau o safleoedd hanesyddol sydd wedi'u cadw, er enghraifft, henebion, adeiladau rhestredig, chwareli, safleoedd damwain yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ac ati.

- Cymru Hanesyddol
- Historic England.

Anogwch y dysgwyr i gyrchu'r ddolen berthnasol ac i archwilio'r map ardal leol i weld pa agweddau ar yr amgylchedd hanesyddol sydd wedi'u cadw. Gallen nhw restru rhai o'u canfyddiadau ac ystyried pa safleoedd maen nhw wedi ymweld â nhw neu'n gwybod amdanyn nhw.

Fel gweithgaredd dilynol, gellid mynd â'r dysgwyr o amgylch yr ardal leol a chymryd ffotograffau o'u canfyddiadau a'u hychwanegu at fap o'r ardal leol yn yr ystafell ddosbarth.

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Pa safleoedd hanesyddol lleol ydych chi'n gwybod amdanynt? Sut ydych chi'n gwybod am y rhain?
- Pa hen adeiladau a henebion ydych chi'n gwybod amdanynt? Sut?
- Pa bethau hanesyddol ddaethoch chi o hyd iddynt ar y ddolen a gyrchwyd gennych? Pa rai o'r rhain ydych chi'n gwybod amdanynt? Sut?
- Pa rai ydych chi wedi ymweld â nhw? Pryd? Pam?

## TASG 4: PAM FOD ANGEN I NI OFALU AM AMGYLCHEDD CWM ELAN?



Eglurwch wrth y dysgwyr eich bod chi nawr eisiau iddyn nhw grwydro Cwm Elan ac ystyried pam mae angen gofalu am yr ardal hon a'i hamddiffyn.

Gallai dysgwyr gael mynediad at y ddolen yn Nhasg 3, sef Cymru Hanesyddol i edrych ar Gwm Elan o safbwynt hanesyddol a hefyd defnyddio gwefan Cwm Elan er mwyn ei harchwilio o safbwynt amgylcheddol.

Gofynnwch i'r dysgwyr restru'r pethau yn yr ardal sydd angen eu diogelu. Gwahoddwch grwpiau o ddysgwyr i ddefnyddio Adnodd 1 (Si-so blaenoriaeth) i flaenoriaethu'r pethau ar eu rhestr o ran pa mor bwysig yw ei diogelu, gan gynnig rhesymau ynghylch pam y dylid eu blaenoriaethu. Yna, efallai y gofynnir i bob grŵp roi adborth ar y tri pheth pwysicaf i'w diogelu, yn eu barn nhw, ac egluro eu rhesymau dros eu diogelu.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Pa bethau hanesyddol wnaethoch chi eu darganfod yng Nghwm Elan?
- Pam ydych chi'n meddwl y dylid diogelu'r pethau hyn? Sut gallwn ni eu diogelu? Pam fyddai hyn yn gweithio?
- Beth yw'r pethau amgylcheddol yng Nghwm Elan sydd angen eu diogelu? Pam ydych chi'n meddwl bod angen eu diogelu?
- Beth yw'r pethau pwysicaf i'w hamddiffyn, yn eich barn chi? Pam?

## TASG 5: SUT GALLAI POBL FOD YN RISG I AMGYLCHEDD CWM ELAN?

Gofynnwch i grwpiau bach o ddysgwyr feddwl sut y gallai bodau dynol fod yn risg i Gwm Elan, gan drafod hyn a rhannu eu syniadau. Coladwch restr dosbarth o ymatebion o'r gwahanol ffyrdd a awgrymwyd. Gallech annog y dysgwyr i weld gwerth pwysigrwydd cymharol y risgiau hyn gan ddefnyddio, er enghraifft, Pleidlais ddotiau i ddatblygu rhestr o risgiau yn nhrefn blaenoriaeth.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Pam mae pobl yn ymweld â Chwm Elan? Sut y gallent fod yn risg?
- Pa ddifrod y gallent ei achosi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut gallai eu gweithredoedd fod yn broblem i'r amgylchedd?
- Pa berygl sydd i'r amgylchedd hanesyddol?
- Gan feddwl am y risgiau hyn, pa rai yw'r rhai pwysicaf i'w hatal? Pam?
- Pa rai yw'r lleiaf pwysig? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## TASG 6: SUT GALLWN NI HELPU YMWELWYR I WARCHOD AMGYLCHEDD CWM ELAN?



Gofynnwch i grwpiau bach o ddysgwyr fyfyrio ar y tasgau maen nhw wedi'u cwblhau ac i feddwl am yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu am yr angen i warchod ardaloedd fel Cwm Elan, a thrafod hyn.

Gwahoddwch y dysgwyr i greu poster a fydd yn amlygu pwysigrwydd Cwm Elan i ymwelwyr ac yn eu hannog i warchod yr amgylchedd naturiol a hanesyddol.

Gallai pob grŵp arddangos eu posteri a gallai eu cyfoedion roi adborth cymheiriaid ar nodiadau gludiog gan ddefnyddio 'Dwy seren a dymuniad' neu gellid arddangos y posteri o amgylch yr ysgol i rieni a gofalwyr eu gweld.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Beth yw prif bwrpas y poster?
- At ba gynulleidfa mae'r poster wedi'i anelu? Pam?
- Beth yw'r pethau pwysicaf i'w hamlygu ar y poster? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut byddwch chi'n amlygu'r pethau hyn?
- Beth sy'n gwneud poster da a diddorol? Pam fod y pethau hyn yn gweithio?
- Sut byddwch chi'n sicrhau bod eich poster yn un da a diddorol?
- Pa negeseuon ydych chi am eu cyfleu yn eich poster? Pam?
- Sut byddwch chi'n gwneud hyn? Pam ei wneud fel hynny?

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

# MANYLION YNGHYLCH Y CYFLEOEDD I DDATBLYGU

## CWRICWLWM I GYMRU

**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:**

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

- Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.
- Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.
- Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

**Iechyd a Lles**

- Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.

**Y Dyniaethau**

- Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.
- Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.

**Mathemateg a Rhifedd**

- Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas.

**FfLlRh**

**Llythrennedd**

- **Gwrando:** Datblygu geirfa; Gwrando fel rhan o siarad cydweithredol.
- **Siarad:** Eglurder a geirfa; Diben; Siarad cydweithredol; Gofyn cwestiynau.
- **Ysgrifennu:** Geirfa, sillafu, gramadeg; Cynllunio a threfnu ar gyfer gwahanol ddibenion, cynulleidfaoedd a chyd-destunau; Prawfddarllen, golygu a gwella.


**FfCD**

- **Dinasyddiaeth:** Hunaniaeth, delwedd ac enw da; Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth.
- **Rhyngweithio a chydweithio:** Cydweithredu; Cyfnewid a rhannu gwybodaeth.
- **Cynhyrchu:** Cyrchu, chwilio a chynllunio cynnwys digidol; Creu cynnwys digidol; Gwerthuso a gwella cynnwys digidol.

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

# ADNODD 1

## SI-SO BLAENORIAETH




Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

# CWESTIYNAU FFOCWS A AWGRYMIR

| TASG 1 | |
|---|---|
| Sut mae pethau o'n cwmpas wedi newid? | • Pa newidiadau ydych chi wedi sylwi arnynt o'ch cwmpas yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf?<br>• Sut mae eich cartref wedi newid? Pam?<br>• Sut mae'r tu allan i'ch cartref a'r ardal ger eich cartref wedi newid? Pam? Pwy neu beth oedd y rheswm am y newidiadau?<br>• Sut mae'r ysgol wedi newid ers i chi fod ynddi? Pam?<br>• Sut mae tiroedd yr ysgol wedi newid? Pam y gwnaed y newidiadau hyn? Pwy wnaeth y newidiadau?<br>• Sut mae'r ardal o amgylch yr ysgol wedi newid? |

| TASG 2 | |
|---|---|
| Sut byddai datblygiad newydd yn newid yr amgylchedd? | • Beth yw ystyr 'datblygiad newydd' yn yr ardal leol, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Pa ddatblygiadau newydd a gafwyd yn ddiweddar? Sut ydych chi'n gwybod?<br>• Sut oedd pobl yn ymateb i'r datblygiadau hyn? Pam?<br>• Pa ofodau neu leoedd wnaethoch chi ddod o hyd iddynt, lle gallai datblygiad newydd ddigwydd? Pam ydych chi'n meddwl bod hwn yn ofod neu le da ar gyfer datblygiad?<br>• Beth sy'n byw yn yr ardal hon? Pa blanhigion ac anifeiliaid wnaethoch chi ddod o hyd iddynt? Beth allai ddigwydd iddyn nhw? Pam?<br>• Sut byddai pobl leol yn cael eu heffeithio? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• A fyddai angen adeiladu mwy o ffyrdd? Pam?<br>• Beth fyddwch chi'n ei gynnwys yn eich adroddiad amgylcheddol? Pam? |

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

| TASG 3 | |
| --- | --- |
| Sut ydyn ni wedi cadw ein hamgylchedd hanesyddol? | • Pa safleoedd hanesyddol lleol ydych chi'n gwybod amdanynt? Sut ydych chi'n gwybod am y rhain?<br>• Pa hen adeiladau a henebion ydych chi'n gwybod amdanynt? Sut?<br>• Pa bethau hanesyddol ddaethoch chi o hyd iddynt ar y ddolen a gyrchwyd gennych? Pa rai o'r rhain ydych chi'n gwybod amdanynt? Sut?<br>• Pa rai ydych chi wedi ymweld â nhw? Pryd? Pam? |

| TASG 4 | |
| --- | --- |
| Pam fod angen i ni ofalu am amgylchedd Cwm Elan? | • Pa bethau hanesyddol wnaethoch chi eu darganfod yng Nghwm Elan?<br>• Pam ydych chi'n meddwl y dylid diogelu'r pethau hyn? Sut gallwn ni eu diogelu? Pam fyddai hyn yn gweithio?<br>• Beth yw'r pethau amgylcheddol yng Nghwm Elan sydd angen eu diogelu? Pam ydych chi'n meddwl bod angen eu diogelu?<br>• Beth yw'r pethau pwysicaf i'w hamddiffyn, yn eich barn chi? Pam? |

| TASG 5 | |
| --- | --- |
| Sut gallai pobl fod yn risg i amgylchedd Cwm Elan? | • Pam mae pobl yn ymweld â Chwm Elan? Sut y gallent fod yn risg?<br>• Pa ddifrod y gallent ei achosi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Sut gallai eu gweithredoedd fod yn broblem i'r amgylchedd?<br>• Pa berygl sydd i'r amgylchedd hanesyddol?<br>• Gan feddwl am y risgiau hyn, pa rai yw'r rhai pwysicaf i'w hatal? Pam?<br>• Pa rai yw'r lleiaf pwysig? Pam ydych chi'n meddwl hynny? |

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

| TASG 6 | |
|---|---|
| Sut gallwn ni helpu ymwelwyr i warchod amgylchedd Cwm Elan? | • Beth yw prif bwrpas y poster?<br>• At ba gynulleidfa mae'r poster wedi'i anelu? Pam?<br>• Beth yw'r pethau pwysicaf i'w hamlygu ar y poster? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Sut byddwch chi'n amlygu'r pethau hyn?<br>• Beth sy'n gwneud poster da a diddorol? Pam fod y pethau hyn yn gweithio?<br>• Sut byddwch chi'n sicrhau bod eich poster yn un da a diddorol?<br>• Pa negeseuon ydych chi am eu cyfleu yn eich poster? Pam?<br>• Sut byddwch chi'n gwneud hyn? Pam ei wneud fel hynny? |

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

# NODIADAU ATHRAWON

## GWEITHGAREDD 8: SUT GALLAI NEWID YN YR HINSAWDD EFFEITHIO AR GWM ELAN?

### TROSOLWG




Mae'r dysgwyr yn rhestru gwahanol fathau o dywydd ac yn ystyried sut dywydd a geir ar wahanol adegau o'r flwyddyn a'r gwahaniaeth rhwng 'tywydd' a 'hinsawdd'. Maen nhw'n ystyried yr hinsawdd lle maen nhw'n byw ac yn gwneud ymchwil pellach ac yn archwilio eu ffordd o feddwl parthed beth mae 'newid yn yr hinsawdd' yn ei olygu mewn gwirionedd a pham ei fod yn fater mor bwysig.

Mae dysgwyr yn ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd ac yn archwilio tystiolaeth sy'n awgrymu bod tymheredd cyfartalog byd-eang yn cynyddu'n gyflym. Maent yn archwilio sut y gallai hyn fod yn achosi i 'dywydd eithafol' ddigwydd yn amlach a pha effaith y gallai hyn ei chael ar Gwm Elan. Mae dysgwyr yn dysgu am bwysigrwydd adfer mawnogydd i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Maent yn ystyried yr effeithiau eraill a achosir gan newid yn yr hinsawdd a'r effeithiau y mae lefel y môr yn codi yn ei gael yn fyd-eang ac yn y DU.

### CYFLEOEDD I DDATBLYGU

#### CWRICWLWM I GYMRU

Meysydd dysgu a phrofiad:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae gweithgarwch hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn yr **FfLlRh** a'r **FfCD**.

### ADNODDAU SY'N CAEL EU CYNNWYS GYDA'R GWEITHGAREDD HWN

- Adnodd 1 – Grid GESD
- Cwestiynau ffocws a awgrymir.


Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

## ADNODDAU SYDD EU HANGEN I WNEUD Y GWEITHGAREDD HWN

- Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd
- Mapiau o'r ardal leol, os ydynt ar gael.

## DOLENNI DEFNYDDIOL

Anogwch y dysgwyr i chwilio am wybodaeth a chael gafael arni'n annibynnol, lle bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, gallai'r dolenni hyn fod yn ddefnyddiol ar gyfer rhai o'r tasgau.

- BBC Bitesize – What is the difference between weather and climate?
- National Oceanic and Atmospheric Administration (NOAA) – What's the difference between climate and weather?
- Met Office – Climate zones
- Time and date – Climate & Weather Averages in Great Britain, England, United Kingdom
- Met Office – What is climate change?
- Al Jazeera English – Expect more extreme weather, warn UK climate scientists (fideo YouTube)
- NASA – The Effects of Climate Change
- Cwm Elan
- Microsoft Sway
- Cyfoeth Naturiol Cymru - Adfywio Cyforgorsydd Cymru
- Wales Online – How muddy bogs could end up being Wales' secret weapon against wildfires and climate change
- Forest Research – Climate change factsheet: Peatlands, Forestry and Climate Change
- Cwm Elan - Corsydd Iach
- Met Office – Effects of climate change
- Climate Central – Coastal Risk Screening Tool.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau. Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored.
- Sicrhewch fod gan bob grŵp fynediad i ddyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd.
- Wrth wneud pob tasg, gellir rhoi'r cwestiynau ffocws a awgrymir i'r dysgwyr wrth iddynt ddechrau pob tasg neu gall yr athro eu defnyddio.

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

## TASG 1: BETH YDYN NI'N EI OLYGU WRTH HINSAWDD?

Gofynnwch i grwpiau o ddysgwyr restru'r gwahanol fathau o dywydd y maen nhw'n gwybod amdanynt ac i rannu eu syniadau, gan goladu rhestr ddosbarth o'r rhain. Gallech eu hannog i ystyried sut dywydd rydyn ni'n debygol o'i gael ar wahanol adegau o'r flwyddyn, gan feddwl pam mae pobl yn mynd dramor am eu gwyliau.

Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried beth yw'r gwahaniaeth rhwng 'tywydd' a 'hinsawdd' ac i ysgrifennu diffiniad ar gyfer pob un, sy'n egluro'r hyn sydd yn eu meddwl. Efallai y bydd angen i ddysgwyr wneud ymchwil i archwilio eu dealltwriaeth a defnyddio dolenni fel:

- BBC Bitesize – What is the difference between weather and climate?
- National Oceanic and Atmospheric Administration (NOAA) – What's the difference between climate and weather?

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Pa fathau gwahanol o dywydd ydych chi'n gwybod amdanynt? Sut ydych chi'n gwybod am y rhain?
- Pa fath gwahanol o dywydd sy'n digwydd amlaf lle rydych chi'n byw? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa fathau o dywydd ydych chi'n gwybod amdanynt, ond nad ydych wedi'u gweld erioed? Sut ydych chi'n gwybod am y mathau hyn o dywydd? Sut ydych chi'n gwybod eu bod yn dywydd sy'n digwydd go iawn?
- Beth yw 'hinsawdd', yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Yn eich barn chi, sut mae hinsawdd yn wahanol i dywydd? Sut ydych chi'n gwybod hynny?
- Pa eiriau allweddol fyddwch chi'n eu cynnwys yn eich diffiniadau o hinsawdd a thywydd? Pam?

## TASG 2: BETH YW EIN HINSAWDD?



Gofynnwch i barau o ddysgwyr ystyried beth yw'r hinsawdd lle maen nhw'n byw, yn eu barn nhw, gan rannu eu syniadau. Gwahoddwch grwpiau bach i ddefnyddio Adnodd 1 (Grid GESD) i gefnogi eu hymchwil i ddarganfod gwybodaeth am yr hinsawdd lle maen nhw'n byw.

Efallai y byddwch am annog y dysgwyr i ddarganfod mwy am 'barthau hinsawdd' Met Office – Climate zones a chwilio am ystadegau tywydd ar gyfartaledd ar gyfer eu harda Time and date – Climate & Weather Averages in Great Britain, England, United Kingdom. Bydd llawer o ddeilliannau chwilio yn darparu gwybodaeth fwy cymhleth am dywydd a hinsawdd, ond mae'r gwefannau hyn yn darparu gwybodaeth hygyrch ac yn galluogi dysgwyr i chwilio am ystadegau tywydd ar gyfartaledd ar gyfer eu hardal.

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Yn eich barn chi, beth yw'r hinsawdd lle rydych chi'n byw? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut byddech chi'n disgrifio eich gaeaf, gwanwyn, haf a hydref i rywun o wlad arall?
- Sut fyddwch chi'n defnyddio'r Grid GESD?
- Pa gwestiynau fyddwch chi'n eu gofyn? Pam?
- Ble byddwch chi'n chwilio am wybodaeth? Pam?

## TASG 3: BETH YDYN NI'N EI WYBOD AM NEWID YN YR HINSAWDD?

Eglurwch wrth y dysgwyr fod 'newid hinsawdd' yn ymadrodd y bydd y rhan fwyaf o bobl ifanc wedi clywed amdano ar y teledu, yn y cyfryngau cymdeithasol, mewn trafodaethau teuluol, ac ati. Gofynnwch i barau o ddysgwyr ystyried beth maen nhw'n feddwl mae 'newid yn yr hinsawdd' yn ei olygu mewn gwirionedd a pham maen nhw'n meddwl ei fod yn fater mor bwysig. Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau fel sail i drafodaeth.



**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Pryd ydych chi wedi clywed yr ymadrodd 'newid yn yr hinsawdd'?
- Beth yw 'newid yn yr hinsawdd' yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth ydych chi wedi clywed pobl yn ei ddweud am newid yn yr hinsawdd?

## TASG 4: BETH YW EFFEITHIAU NEWID YN YR HINSAWDD?

Eglurwch wrth y dysgwyr, pan fydd hinsawdd rhywle'n newid, mae hyn yn debygol o gael effaith ar yr amgylcheddau naturiol a ffisegol, h.y. y planhigion a'r anifeiliaid sy'n byw yno, sut maen nhw'n rhyngweithio a'r amodau maen nhw'n byw danynt.

Eglurwch wrth y dysgwyr fod data am dywydd a hinsawdd yn cael ei gasglu'n ddyddiol ar draws y byd a bod dadansoddi'r data hwn yn arwain at rai canlyniadau a graffiau cymhleth iawn, ac mai dim ond arbenigwyr sy'n gallu eu defnyddio i ddod i gasgliadau. Fodd bynnag, mae pob un ohonom yn gallu edrych ar y dystiolaeth a datblygu dealltwriaeth sylfaenol.

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

Os yn bosibl, dangoswch dudalen y Swyddfa Feteorolegol i'r dysgwyr, y gellir ei chyrchu drwy gyfrwng y ddolen hon Met Office – What is climate change?. Fel arall, gofynnwch iddynt gyrchu'r ddolen mewn grwpiau bach. Dangoswch y graff cyntaf iddynt, sy'n dangos y newid yn y tymheredd byd-eang rhwng 1850 a 2022 a gofynnwch i barau o ddysgwyr feddwl beth y mae'r graff yn ei ddangos, ac yna trafod hyn a rhannu eu syniadau.

Yn ail, dangoswch ddiagram tymheredd blynyddol y DU (tebyg i god bar) ymhellach i lawr y dudalen, i'r dysgwyr. Anogwch nhw i astudio'r diagram a'r wybodaeth a ddangosir ac i rannu syniadau am yr hyn maen nhw'n ei feddwl y mae'n ei ddangos i ni.

Mae gwybodaeth ar y dudalen hon am achosion newid yn yr hinsawdd, ond rydym yn canolbwyntio fan hyn ar ddarparu tystiolaeth i'w dangos i ddysgwyr, bod cynnydd yn nhymheredd y byd ar gyfartaledd, a'i fod yn cynyddu'n gyflym.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Beth mae'r graff yn ei ddangos i ni, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth yw 'stori' y graff? Sut ydych chi'n gwybod?
- Beth mae'r diagram yn ei ddangos, yn eich barn chi? Pam?
- Pa wybodaeth arall sy'n cael ei dangos gyda'r diagram?
- Pa gasgliadau allech chi eu tynnu, ar sail y dystiolaeth a welsoch?

## TASG 5: SUT GALLAI NEWID YN YR HINSAWDD EFFEITHIO AR EIN HAMGYLCHEDD?

Atgoffwch y dysgwyr eu bod wedi astudio sut mae'r byd yn cynhesu yn y dasg flaenorol. Eglurwch wrthynt fod hyn wedi dechrau cael effaith ar yr hinsawdd ac yn debygol o barhau i wneud hynny yn y dyfodol, oni bai bod rhywbeth yn newid.



Un o brif effeithiau newid yn yr hinsawdd yw digwyddiadau 'tywydd eithafol' amlach. Gallech ofyn i'r dysgwyr gael mynediad i fideos ar-lein sy'n adrodd ar ddigwyddiadau tywydd eithafol diweddar, fel ysgogiad ar gyfer trafodaeth, e.e. Al Jazeera English – Expect more extreme weather, warn UK climate scientists (fideo YouTube).

Yn ôl NASA The Effects of Climate Change, "Mae effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd yn fyd-eang yn y dyfodol yn cynnwys tanau gwyllt yn digwydd yn amlach, cyfnodau hirach o sychder mewn rhai rhanbarthau, cynnydd yn nwyster y gwynt a glawiad o seiclonau trofannol".

Gofynnwch i grwpiau bach o ddysgwyr archwilio gwefan [Cwm Elan] ac i ystyried beth efallai fyddai'r effaith, pe digwydd y canlynol:

- Tanau gwyllt
- Ysbeidiau sych am gyfnodau hir a dim glaw
- Ysbeidiau gwlyb gyda mwy o law nag arfer a gwyntoedd cryfion.

Yn ddelfrydol, dylech gael o leiaf ddau grŵp yn edrych ar bob digwyddiad ac yn adrodd eu syniadau yn ôl i'r dosbarth ar ffurf cyflwyniad byr (30 eiliad).

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Beth ydych chi'n ei feddwl fyddai'n digwydd i Gwm Elan pe na byddai'n bwrw glaw am amser hir?
- Sut byddai'r planhigion a'r anifeiliaid yn cael eu heffeithio? Pam?
- Beth fyddai'n digwydd i'r cronfeydd dŵr? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth efallai fyddai canlyniadau'r newidiadau hyn i'r cronfeydd dŵr? Pam?
- Sut y byddai tanau gwyllt yn gallu effeithio ar yr amgylchedd, yn eich barn chi? Sut ydych chi'n gwybod?
- Beth fyddai'n digwydd pe byddai cyfnodau hir o dywydd gwlyb gyda rhai gwyntoedd cryfion?
- Pa broblemau y gallai cyfnodau hir o dywydd gwlyb eu hachosi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## TASG 6: SUT YDYN NI'N CEISIO BRWYDRO YN ERBYN NEWID YN YR HINSAWDD YNG NGHWM ELAN?

Eglurwch wrth y dysgwyr fod llawer o ffyrdd yn cael eu defnyddio i geisio brwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd. Un o'r ffyrdd hyn yw adfer mawnogydd. Gwahoddwch y dysgwyr i ymchwilio a darganfod beth yw mawnog a sut mae mawn wedi cael ei ddefnyddio yn hanesyddol. Gallech ofyn iddynt ddatblygu MS Sway i ddangos i eraill, yr hyn y maent wedi'i ddarganfod.



Unwaith y bydd y dysgwyr yn deall beth yw mawnogydd, gofynnwch iddyn nhw ddarganfod sut y gallai adfer mawnogydd leihau effeithiau newid yn yr hinsawdd. Gallai safleoedd defnyddiol gynnwys: Cyfoeth Naturiol Cymru - Adfywio Cyforgorsydd Cymru, Wales Online – How muddy bogs could end up being Wales' secret weapon against wildfires and climate change, Forest Research – Climate change factsheet: Peatlands, Forestry and Climate Change.

Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ystyried beth a wneir yng Nghwm Elan ynglŷn ag adfer corsydd, trwy ddarllen: Cwm Elan - Corsydd Iach.

Yna, gallai'r dysgwyr gwblhau eu Sway i ddangos i eraill sut y gallai adfer mawnogydd helpu i liniaru newid yn yr hinsawdd.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Beth yw mawnog?
- Sut mae mawn wedi cael ei ddefnyddio yn hanesyddol? Pam y gallai hyn fod wedi effeithio ar newid yn yr hinsawdd?
- Sut gallwn ni adfer mawnogydd?
- Pa effeithiau y gallai adfer mawnogydd eu cael ar newid yn yr hinsawdd neu ei effeithiau?
- Pa effeithiau cadarnhaol eraill y gellid eu gweld pe byddem yn adfer mawnogydd?

## TASG 7: SUT ARALL Y GALLAI NEWID HINSAWDD EFFEITHIO AR YR AMGYLCHEDD?



Gwahoddwch grwpiau bach o ddysgwyr i edrych ar erthygl ar-lein gan y Swyddfa Feteorolegol ar y ddolen hon Effects of climate change ac i ddod o hyd i'r diagram cyntaf, sy'n dangos ysgogwyr newid hinsawdd, newidiadau i'r system hinsawdd ac effeithiau newid yn yr hinsawdd. Gofynnwch iddyn nhw feddwl beth mae'r diagram yn ei ddangos ac a oes unrhyw wybodaeth sy'n newydd iddyn nhw, gan drafod hyn a rhannu eu syniadau.

Tynnwch sylw at y ffaith fod 'Lefel y môr yn codi' yn cael ei ddangos fel newid yn y system hinsawdd ac anogwch y dysgwyr i archwilio'r data a ddarperir ar y ddolen yn yr erthygl ac i roi adborth am eu syniadau ynghylch yr hyn y mae'n ei ddangos.

Eglurwch wrth y dysgwyr fod symiau enfawr o ddata wedi'u cynhyrchu ynghylch lefel y môr yn codi a sut y gallai'r rhain effeithio ar leoedd a phobl yn y dyfodol. Defnyddir y data i ddatblygu modelau o'r hyn a allai ddigwydd neu sy'n debygol o ddigwydd yn y dyfodol, os bydd lefel y môr yn codi. Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio'r ddolen hon Climate Central – Coastal Risk Screening Tool i edrych ar y map o'r byd ac i glicio ar 'Dewis map'. Bydd hyn yn eu galluogi i archwilio 'Lefel y dŵr' fel opsiwn, ar fap y gellir ei lusgo a'i chwyddo, gan ddangos yr ardaloedd o amgylch y byd sydd fwyaf mewn perygl o ganlyniad i lefel y môr yn codi. Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried pa ardaloedd sydd mewn perygl mwyaf a hefyd i ddod o hyd i'r DU ac archwilio beth allai ddigwydd i wahanol ardaloedd yn y DU.

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Beth mae'r diagram yn ei ddangos, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa bethau newydd ydych chi wedi'u dysgu o'r diagram?
- Pa wybodaeth ddaethoch chi o hyd iddi ar y ddolen 'Lefel y môr yn codi'? Beth ddysgoch chi? Sut?
- Beth yw prif neges yr wybodaeth hon? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa rannau o'r byd sy'n wynebu'r perygl mwyaf gan lefelau dŵr sy'n codi? Sut ydych chi'n gwybod?
- Beth wnaeth eich synnu am yr wybodaeth ar y map? Pam?
- Pa ardaloedd o'r DU sy'n edrych fel eu bod yn y perygl mwyaf? Ai dyma beth oeddech chi'n ei ddisgwyl? Pam?
- Pa risg sydd i'r ardal lle rydych chi'n byw? Pam? Sut ydych chi'n gwybod?
- Beth allai ddigwydd i'r ardaloedd sy'n wynebu'r perygl mwyaf? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## TASG 8: SUT FYDDEN NI'N YMATEB I NEWID YN YR HINSAWDD YN EFFEITHIO ARNOM NI?

Gofynnwch i grwpiau bach o ddysgwyr ystyried beth efallai fyddai effaith lefel y môr yn codi ar gymunedau sy'n byw mewn ardaloedd sydd mewn perygl, a sut y gallai hyn effeithio ar eu bywydau.



Rhowch y senario ganlynol i'r dysgwyr:

- Rydych yn byw mewn cymuned fach sy'n cael ei gorfodi i symud oherwydd bydd llifogydd yn digwydd yn fuan.
- Dim ond ychydig ddyddiau o rybudd a roddir i deuluoedd, ond mae'n rhaid iddynt bacio eu heiddo er mwyn bod yn barod i symud mewn wythnos.
- Gofynnir i deuluoedd symud i fyw at berthnasau neu ffrindiau, filltiroedd lawer i ffwrdd, am ychydig wythnosau neu os nad ydynt yn gallu gwneud hyn, gellir eu cartrefu mewn gwestai.
- Mae'n debyg na fyddwch byth yn gallu dod yn ôl i fyw yma.

Gwahoddwch y dysgwyr i greu cofnod o'u hwythnos olaf cyn gadael, er enghraifft, drwy greu blog, blog fideo, dyddiadur, stori, ac ati. Anogwch nhw i rannu sut maen nhw a'u teulu yn teimlo, beth yw eu meddyliau ynghylch gadael, y dyfodol, methu dychwelyd, ac ati.

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri
Ymddiriedolaeth Cwm Elan
Elan Valley Trust

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Yn eich barn chi, beth fyddai effaith lefel y môr yn codi ar ardaloedd sydd mewn perygl? Pam?
- Sut byddech chi'n teimlo pe byddech chi'n byw mewn ardal risg uchel? Pam?
- Pa dasg y gofynnwyd i chi ei chwblhau? Sut byddwch chi'n mynd i'r afael â'r dasg hon? Pam?
- Sut byddwch chi'n cyflwyno'ch syniadau? Pam?
- Yn y sefyllfa hon, beth fyddai'r prif broblemau y byddech yn eu hwynebu? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut byddech chi'n datrys y problemau hyn? Pam fyddai hyn yn gweithio?
- Sut byddai symud i fyw yn effeithio ar eich bywyd?
- Beth fyddai'r peth gwaethaf am symud i fyw? Pam?
- Beth efallai fyddai'r pethau cadarnhaol am symud i fyw? Pam y byddai'r rhain yn gadarnhaol?

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

# MANYLION YNGHYLCH Y CYFLEOEDD I DDATBLYGU

## CWRICWLWM I GYMRU

**Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:**

**Y Celfyddydau Mynegiannol**

- Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.
- Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.
- Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.

**Iechyd a Lles**

- Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.
- Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.
- Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill.
- Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.

**Y Dyniaethau**

- Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol.
- Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd.
- Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a
- gweithredoedd dynol.
- Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl.
- Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.
- Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.

**Mathemateg a Rhifedd**

- Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.

**Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

- Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.
- Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.
- Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau.
- Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd.

**FfLlRh**

**Llythrennedd**

- **Gwrando: Datblygu geirfa;** Gwrando fel rhan o siarad cydweithredol.
- **Siarad:** Eglurder a geirfa; Diben; Siarad cydweithredol; Gofyn cwestiynau.
- **Ysgrifennu:** Geirfa, sillafu, gramadeg; Cynllunio a threfnu ar gyfer gwahanol ddibenion, cynulleidfaoedd a chyd-destunau; Prawfddarllen, golygu a gwella.

**FfCD**

- **Dinasyddiaeth:** Hunaniaeth, delwedd ac enw da; Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth.
- **Rhyngweithio a chydweithio:** Cydweithredu; Cyfnewid a rhannu gwybodaeth.
- **Cynhyrchu:** Cyrchu, chwilio a chynllunio cynnwys digidol; Creu cynnwys digidol; Gwerthuso a gwella cynnwys digidol.

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

# ADNODD 1

## GRID GESD

| G | E | S | D |
|---|---|---|---|
| **GWYBOD**<br>Dyma rwy'n ei **wybod** eisoes… | **EISIAU**<br>Dyma rwyf **eisiau** ei wybod… | **SUT**<br>**Sut** rwyf am ddarganfod hyn? | **DYSGU**<br>Beth rwyf wedi ei **ddysgu**? |
| | | | |

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

# CWESTIYNAU FFOCWS A AWGRYMIR

| TASG 1 | |
|---|---|
| Beth ydyn ni'n ei olygu wrth hinsawdd? | • Pa fathau gwahanol o dywydd ydych chi'n gwybod amdanynt? Sut ydych chi'n gwybod am y rhain?<br>• Pa fath gwahanol o dywydd sy'n digwydd amlaf lle rydych chi'n byw? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Pa fathau o dywydd ydych chi'n gwybod amdanynt, ond nad ydych wedi'u gweld erioed? Sut ydych chi'n gwybod am y mathau hyn o dywydd? Sut ydych chi'n gwybod eu bod yn dywydd sy'n digwydd go iawn?<br>• Beth yw 'hinsawdd', yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Yn eich barn chi, sut mae hinsawdd yn wahanol i dywydd? Sut ydych chi'n gwybod hynny?<br>• Pa eiriau allweddol fyddwch chi'n eu cynnwys yn eich diffiniadau o hinsawdd a thywydd? Pam? |

| TASG 2 | |
|---|---|
| Beth yw ein hinsawdd? | • Yn eich barn chi, beth yw'r hinsawdd lle rydych chi'n byw? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Sut byddech chi'n disgrifio eich gaeaf, gwanwyn, haf a hydref i rywun o wlad arall?<br>• Sut fyddwch chi'n defnyddio'r Grid GESD?<br>• Pa gwestiynau fyddwch chi'n eu gofyn? Pam?<br>• Ble byddwch chi'n chwilio am wybodaeth? Pam? |

| TASG 3 | |
|---|---|
| Beth ydyn ni'n ei wybod am newid yn yr hinsawdd? | • Pryd ydych chi wedi clywed yr ymadrodd 'newid yn yr hinsawdd'?<br>• Beth yw 'newid yn yr hinsawdd' yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?<br>• Beth ydych chi wedi clywed pobl yn ei ddweud am newid yn yr hinsawdd? |

Funding raised by The National Lottery
and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol
ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

## TASG 4

Beth yw effeithiau newid yn yr hinsawdd?

- Beth mae'r graff yn ei ddangos i ni, yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth yw 'stori' y graff? Sut ydych chi'n gwybod?
- Beth mae'r diagram yn ei ddangos, yn eich barn chi? Pam?
- Pa wybodaeth arall sy'n cael ei dangos gyda'r diagram?
- Pa gasgliadau allech chi eu tynnu, ar sail y dystiolaeth a welsoch?

## TASG 5

Sut gallai newid yn yr hinsawdd effeithio ar ein hamgylchedd?

- Beth ydych chi'n ei feddwl fyddai'n digwydd i Gwm Elan pe na byddai'n bwrw glaw am amser hir?
- Sut byddai'r planhigion a'r anifeiliaid yn cael eu heffeithio? Pam?
- Beth fyddai'n digwydd i'r cronfeydd dŵr? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth efallai fyddai canlyniadau'r newidiadau hyn i'r cronfeydd dŵr? Pam?
- Sut y byddai tanau gwyllt yn gallu effeithio ar yr amgylchedd, yn eich barn chi? Sut ydych chi'n gwybod?
- Beth fyddai'n digwydd pe byddai cyfnodau hir o dywydd gwlyb gyda rhai gwyntoedd cryfion?
- Pa broblemau y gallai cyfnodau hir o dywydd gwlyb eu hachosi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## TASG 6

Sut ydyn ni'n ceisio brwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd yng Nghwm Elan?

- Beth yw mawnog?
- Sut mae mawn wedi cael ei ddefnyddio yn hanesyddol? Pam y gallai hyn fod wedi effeithio ar newid yn yr hinsawdd?
- Sut gallwn ni adfer mawnogydd?
- Pa effeithiau y gallai adfer mawnogydd eu cael ar newid yn yr hinsawdd neu ei effeithiau?
- Pa effeithiau cadarnhaol eraill y gellid eu gweld pe byddem yn adfer mawnogydd?

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

## TASG 7

| Sut arall y gallai newid hinsawdd effeithio ar yr amgylchedd? | • Beth mae’r diagram yn ei ddangos, yn eich barn chi? Pam ydych chi’n meddwl hynny?<br>• Pa bethau newydd ydych chi wedi’u dysgu o’r diagram?<br>• Pa wybodaeth ddaethoch chi o hyd iddi ar y ddolen ‘Lefel y môr yn codi’? Beth ddysgoch chi? Sut?<br>• Beth yw prif neges yr wybodaeth hon? Sut ydych chi’n gwybod?<br>• Pa rannau o’r byd sy’n wynebu’r perygl mwyaf gan lefelau dŵr sy’n codi? Sut ydych chi’n gwybod?<br>• Beth wnaeth eich synnu am yr wybodaeth ar y map? Pam?<br>• Pa ardaloedd o’r DU sy’n edrych fel eu bod yn y perygl mwyaf? Ai dyma beth oeddech chi’n ei ddisgwyl? Pam?<br>• Pa risg sydd i’r ardal lle rydych chi’n byw? Pam? Sut ydych chi’n gwybod?<br>• Beth allai ddigwydd i’r ardaloedd sy’n wynebu’r perygl mwyaf? Pam ydych chi’n meddwl hynny? |
|---|---|

## TASG 8

| Sut fydden ni’n ymateb i newid yn yr hinsawdd yn effeithio arnom ni? | • Yn eich barn chi, beth fyddai effaith lefel y môr yn codi ar ardaloedd sydd mewn perygl? Pam?<br>• Sut byddech chi’n teimlo pe byddech chi’n byw mewn ardal risg uchel? Pam?<br>• Pa dasg y gofynnwyd i chi ei chwblhau? Sut byddwch chi’n mynd i’r afael â’r dasg hon? Pam?<br>• Sut byddwch chi’n cyflwyno’ch syniadau? Pam?<br>• Yn y sefyllfa hon, beth fyddai’r prif broblemau y byddech yn eu hwynebu? Pam ydych chi’n meddwl hynny?<br>• Sut byddech chi’n datrys y problemau hyn? Pam fyddai hyn yn gweithio?<br>• Sut byddai symud i fyw yn effeithio ar eich bywyd?<br>• Beth fyddai’r peth gwaethaf am symud i fyw? Pam?<br>• Beth efallai fyddai’r pethau cadarnhaol am symud i fyw? Pam y byddai’r rhain yn gadarnhaol? |
|---|---|

# GWEITHGAREDD 9: PAM RYDYN NI'N ADEILADU ARGAEAU?

## TROSOLWG

Mae dysgwyr yn archwilio eu dealltwriaeth o'r gair 'argae' ac yn ystyried pam rydyn ni'n adeiladu argaeau. Maen nhw'n defnyddio delweddau o argaeau Cwm Elan a mapiau ac adnoddau ar-lein i ystyried pam mae'r argaeau wedi'u hadeiladu yn y mannau lle cawsant eu hadeiladu. Mae dysgwyr yn defnyddio'r amgylchedd awyr agored i adeiladu argae ar draws dŵr sy'n llifo, gan ystyried effeithiau'r argae ar ddŵr sy'n llifo. Maent yn cyrchu erthygl newyddion ac yn archwilio i ganfod ai bodau dynol yw'r unig anifeiliaid i adeiladu argaeau, cyn iddyn nhw yn y pen draw, ymchwilio ac ystyried sut a pham y mae afancod yn adeiladu argaeau.



## CYFLEOEDD I DDATBLYGU

### CWRICWLWM I GYMRU

Meysydd dysgu a phrofiad:

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Iechyd a Lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Mae gweithgarwch hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn yr **FfLlRh** a'r **FfCD**.

## ADNODDAU SY'N CAEL EU CYNNWYS GYDA'R GWEITHGAREDD HWN

- Adnodd 1 – Barn gwahanol bobl
- Adnodd 2 – Delwedd Minecraft 1
- Adnodd 3 – Delwedd Minecraft 2
- Cwestiynau ffocws a awgrymir.

Funding raised by The National Lottery and awarded by the Heritage Lottery Fund
Cyllid a godwyd gan Y Loteri Genedlaethol ac a ddyfarnwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri

## ADNODDAU SYDD EU HANGEN I WNEUD Y GWEITHGAREDD HWN

- Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd
- Mapiau o'r ardal leol, os ydynt ar gael.

## DOLENNI DEFNYDDIOL

Anogwch y dysgwyr i chwilio am wybodaeth a chael gafael arni'n annibynnol, lle bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, gallai'r dolenni hyn fod yn ddefnyddiol ar gyfer rhai o'r tasgau.

- Google Maps
- Elan Valley Past and Present – Elan Valley Dams
- Cwm Elan - Yr Argaeau
- Industrial Tour – Elan Valley Dams & Reservoirs
- Alluring World – Elan Valley Reservoirs
- Sciencing – How to Build a Dam for a School Project
- Let's talk science – Design & Build a Dam
- The Guardian – First wild beaver in Wales in years caught felling trees in garden
- The Wildlife Trusts – Beavers
- National History Museum – Record numbers of beavers are being introduced to the UK
- Woodland Trust – Beaver.

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau. Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored.
- Bydd sut y byddwch yn mynd i'r afael â Thasg 4 yn dibynnu ar leoliad eich ysgol mewn perthynas â ffynhonnell ddŵr sy'n llifo yn lleol, a dylid mynd i'r afael â'r dasg yn unol â hynny.
- Sicrhewch fod gan bob grŵp fynediad i ddyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd.
- Wrth wneud pob tasg, gellir rhoi'r cwestiynau ffocws a awgrymir i'r dysgwyr wrth iddynt ddechrau pob tasg, neu gall yr athro eu defnyddio.

## TASG 1: BETH YDY ARGAE?

Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl beth maen nhw'n ei ddeall am y gair 'argae', a thrafod hyn. Efallai y cânt eu hannog i roi'r gair mewn brawddeg ac i archwilio ym mha gyd-destunau gwahanol y maent wedi clywed y gair yn cael ei ddefnyddio.

**Cwestiynau ffocws a awgrymir:**

- Beth mae'r gair 'argae' yn ei olygu i chi? Pam?
- Lluniwch frawddeg sy'n cynnwys y gair argae? Pam ydych chi wedi dewis y frawddeg hon?
- Ym mha ffyrdd ydych chi wedi clywed y gair yn cael ei ddefnyddio?
- Ym mhle ydych chi wedi gweld argae?
- Beth oedd pwrpas yr argae? Sut ydych chi'n gwybod hynny?

## TASG: 2: PAM RYDYN NI'N ADEILADU ARGAEAU?

